

ECO'R WYDDFA

RHIF 340 NADOLIG/IONAWR 2007 PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn mae cyfarchion Nadolig busnesau
**Llanrug, Bethel, Waunfawr, Penisarwaun
a Chaeathro.**

Ymddangosodd cyfarchion busnesau **Llanberis,
Cwm y Glo, Brynrefail a Deiniolen**
yn rhifyn dechrau Rhagfyr.

Da chi, cefnogwch ein busnesau lleol y Nadolig
hwn, a thrwy gydol 2007. Cewch wasanaeth
cyfeillgar o safon uchel ar garredg eich drws.
Mae hynny'n amhrisiadwy!

Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda i holl
ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

Bwrw Hen Wragedd a Ffyn... A gawn ni 'Ddolg gwyn?

RYDYM fel cenedl yn
ymddiddori yn y tywydd. Sawl
gwaith y mis yma ydych chi
wedi clywed y geiriau 'Sôn am
dywydd!' 'Tydi'r tywydd 'ma'n
ofnadwy!' 'Sôn am wynt!'

O edrych ar y llun hwn a
anfonwyd at yr *Eco* gan un o'r
darllenwyr yn Llanberis,
chredwch chi fyth mai sefyll
yng nghanol Llyn Padarn y
mae'r criw enfawr yma o bobol
a'r cart a'r ceffyl. Y llyn wedi
rhewi'n gorn ym mis Rhagfyr
1852.

Mae'r wythnosau diwethaf
wedi bod yn gyfuniad ofnadwy
o law a chenllysg, gwyntoedd
cryfion a thywydd tymhestlog.
Tybed a gawn ni Nadolig gwyn
eleni?



Yn y glic, mae maes dan glo – mae'r Wyddfa
mor addfwyn dan amdo
a bref hen hanes ein bro'n
ennyd 'di'i rewi yno.

RICHARD LLOYD JONES

HAFOD ERYRI ar Gopa'r Wyddfa

AR DDYDD Mercher, 13
Rhagfyr, wedi trin a thrafod
dyrys, cytunodd Awdurdod
Parc Cenedlaethol Eryri mai
Hafod Eryri fydd enw'r caff
newydd ar ben yr Wyddfa.

Mae'r gwaith adeiladu eisoes
wedi cychwyn a theimlai
awdurdod y Parc fod angen enw
ar yr adeilad newydd er mwyn
nodi'r achlysur.

Daeth nifer fawr o gynigion
gan bobol o bedwar ban byd
trwy gyfrwng llythyrau, ebost,
galwadau ffôn a sawl cynnig
oddi ar raglen newyddion BBC
Radio Cymru – *Taro'r Post*. Wedi
hynny, cynhaliwyd cyfarfod i
aelodau'r awdurdod ym Mhlas
Tan y Bwlch. Bu'r drafodaeth yn
un drylwyr iawn gyda phob
aelod yn gorfod dewis rhestr fer
o 12 enw yn gyntaf, cyn cwtogi'r
rhestr honno a phleidleisio dros
yr enw buddugol ar y diwedd.

Wedi'r cyfarfod, dywedodd
prif weithredwr yr awdurdod,
Aneurin Phillips, fod y mater
wedi cydio yn nychymyg y

cyhoedd a bod maint y
diddordeb wedi eu 'syfrdanu'.

'Rydan ni wedi'n calonogi'n
fawr gan fod cymaint o bobl
wedi mynd i'r drafferth, a
hynny o'u gwirfodd, i gysylltu â
ni,' meddai Mr Phillips. 'Fe
wnaethom ni ddilyn proses
ddemocrataidd o'r cychwyn, a
thrwy bleidlais agos,
pleidleisiodd yr aelodau ar yr
enw Hafod Eryri. Mae'n enw
Cymraeg, syml, hawdd i'w
ynganu a'i farchnata ac yn
adlewyrchu traddodiad
amaethyddol yr ardal.'

Yn ôl geiriadur Prifysgol
Cymru, ystyr y gair hafod yw
'annedd neu lety haf... ar
ucheldir'. Hoffai golygyddion
yr *Eco* wybod beth yw'ch barn
chi, y darllenwyr? Ydi o'n enw
addas? Dewch â'ch sylwadau!

Mae disgwyl i'r ganolfan agor
erbyn dechrau haf 2008 ac
efallai mai'r gystadleuaeth nesaf
fydd – 'Pwy fydd yn agor y
ganolfan newydd? Atebion ar
gerdyn post!'

ECO'R WYDDFA

RHIF 340
DOLIG/IONAWR 2007
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

**Ertbyglau a newyddion
at ohebwy pentref neu**
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4BA
Ymholiadau Golygyddol
Llinos Jones
01248 374 962
llynoshaif@hotmail.com
07733211332

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanfynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 22 IONAWR

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 1 CHWFROR

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror	22 Ionawr	1 Chwefror	Waunfawr	Nan Roberts	650 570

Annwyl Olygydd

*Llwyddo'n Lleol yng Ngwynedd –
yn helpu pobl ifanc Gwynedd i
fentro*

Ydych chi'n gwybod am unrhyw
unigolyn neu grŵp o bobl ifanc
sydd am gychwyn eu busnes neu
fenter eu hunain?

Wyddoch chi bod hyd at
£1,000 ar gael i'w helpu i droi eu
syniad yn realiti?

Mae bwsariaeth Llwyddo'n
Lleol ar gael i unrhyw un sydd yn
30 oed neu iau sydd yn byw yng
Ngwynedd ac sydd am gymorth i
ddechrau busnes neu fenter
newydd.

Gall tim Llwyddo'n Lleol
hefyd ddod allan at glybiau a
chymdeithasau o bobl ifanc i
gynnal gweithdy i helpu pobl
ifanc y feddwl yn fwy creadigol
am eu dyfodol. Mae'n sesiwn
hwyliog, hollol anffurfiol gyda
hyfforddwr profiadol a
thechnegau arloesol i'w
cynorthwyo i ddatblygu syniadau
am fusnesau neu fentrau lleol.
Mae'r sesiwn yn rhad ac am ddim.

Os oes gan rai unigolion neu
grwpiau ddiddordeb mewn
datblygu eu syniad ymhellach ar
ôl y sesiwn, bydd cymorth ar gael
iddynt gyda'r gwaith datblygu a
chymorth i wneud cais i'r
fwrsariaeth.

Am fwy o wybodaeth am
Llwyddo'n Lleol a'r fwrsariaeth o
hyd at £1,000 mae croeso i chi
gysylltu â mi ar (01248) 672607,
neu e-bostio:bethan.eluned@
menterabusnes.co.uk.

Gan edrych ymlaen i glywed
gennych!

Yn gywir

BETHAN ELUNED JONES
Llwyddo'n Lleol yn Ngwynedd

Angen Dosbarthydd

Mae angen rhywun erbyn mis
Ebrill 2007 i rannu 12 copi o'r
Eco yng Nghlwt y Bont. Mae
Mrs M. Jones, Caerau, yn
teimlo fod yr amser wedi dod
iddi gael seibiant, gan iddi
wedi gwneud y gwaith ers y
rhifyn cyntaf un.

Carem ddiolch o galon i
Mrs Jones am ei ffyddlondeb
am gyfnod maith a obeithio y
caiff flynyddoedd o seibiant a
digon o amser i ddarllen yr
Eco. Diolch yn fawr i chi
unwaith eto, Mrs Jones.

NEGES BWYSIG

Plygir y rhifyn nesaf o'r Eco
yn y Waunfawr.

DALIER SYLW – yn Neuadd yr
Ysgol y byddwn yn gwneud y
gwaith. NID yn festri y capel.
Os gwelwch yn dda dowch i'w
gasglu cyn 7.30 o'r gloch gan
y bydd, gobeithio, yn barod
ichi. Bydd gofalwraig yr ysgol
angen cloi yr adeilad a'r giât.



Ar Ben Arall y Lein

Ar ôl yr holl dywydd torheulo
drwy'r haf, fe ddaeth cryn
ddifyrwch gyda'r enwair yn
ystod wythnosau olaf y tymor.
Eleni roeddym yn 'sgota o dan
gynllun arbrolfol hyd at 15
Tachwedd, ac wrth gysidro'r
tymhorau diweddar fe ellir rhoi
diwedd 2006 ymysg y goreuon.
Dywedodd un o'r ffyddloniaid,

'Mae'n rhai fod 'na egiad o
gwmpas gan fod Gwynfor wedi
cael un – ac ar bluen hefyd!' Be
sgin Jôs i ddweud am hyn
tybed?

Yr eog trymaf i fyny at 17
Hydref oedd un am 16.8 pwys a
laniwyd yn Stepiau, Nazareth,
gan Wyn Parry, Caernarfon.
Wyn felly yw deilydd Tlws W. J.
Williams am y flwyddyn i ddod.

Tlws arall sy'n cael ei
gyflwyno yn flynyddol yw Tlws
Tommy Lovell, cyflwynedig i'r
aelod sydd, yng ngolwg y
Pwyllgor Gwaith, wedi gwneud
y cyfraniad mwyaf i'r
Gymdeithas yn ystod y tymor.
Eleni yr aelod yw Ernie Jacques,
Llanrug, am ei waith
ardderchog yn rheoli'r Ddeorfa.

Yr eog trymaf o fewn yr
amser arbrolfol oedd un am 18
pwys o Fflatiau Llyn Distaw.
Ron Miers o Gapel Coch, Ynys
Môn, oedd y genweirwr ac, wrth
gwrs, yn unol â thermau'r amser
estynedig, fe ollyngwyd yr eog
braf yma yn ôl i'r afon.

Amcangyfrif nifer y pysgod a
ddaliwyd am y tymor eleni ar y
Seiont yn unig yw tua 70 eog, a
hyn i gyd mewn mis. 'Sgota
arbennig, ac o gysidro'r nifer
sydd i'w gweld yn ddyddiol yn
yr afon mae'n argoeli'n dda am
y dyfodol.


Gan ein bod ar drothwy'r
Nadolig, mae'n dderbyniol
weithiau i rywun freuddwydio, a
breuddwyd, mae'n siŵr, yw
meddwl am gael tipyn o safon ar
y cyfleusterau sy'n ymwneud â
physgota yn y fro. I feddwl fod
pysgota mor dda i'w gael yma,
rhaid dweud mae go syml yw'r
adnoddau sy'n ymwneud â'r
grefft. Er enghraifft, gwesty
arbennig fyddai'n rhoi
gwasanaeth i 'sgotws a'u
teuluoedd. Dyna mae'r clwb yn
ceisio ei wneud drwy addasu
Melin y Cim, sef rhoi cyfle i gael
aros mewn lle o safon gydag
awrygylch yn ymwneud â 'sgota.
Yr unig le arall yn y fro ble mae
tipyn o'r awrygylch yma i'w gael
yw Tafarn y Cwellyn, Rhyd
Ddu. Ond dros y dŵr yn
Iwerddon, a hefyd yn yr Alban,
mae pethau yn go wahanol, a
dyna rwyn gobeithio ei wneud

yn ystod misoedd dechrau'r
flwyddyn, sef rhoi rhyw olwg
bach i chi ar be, efallai, ddaw ein
ffordd wrth godi safon y 'sgota.
– Breuddwydio eto!

Felly yn y rhifyn nesaf cawn
edrych am ychydig ar Westy
Castell Ballynahinch, un o dri
gwesty yn y gwir orllewin sy'n
cynnig pysgota arbennig i'w
gwsteion. Cyffyrddaf â rhain
yn y dyfodol agos hefyd, sef
Delphi a Lough Inagh. Efallai y
cawn aros yno rhywdro dros y
Nadolig – breuddwyd arall
mwyaf tebyg.

Diolch i chwi oll am ddangos
cyn gymaint o ddiddordeb yn y
golofn. Felly, wrth gloi am y
flwyddyn hoffwn ddymuno
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Ddedwydd a
Llewyrchus i chwi oll

HUW PRICE HUGHES



Clifford Thomas.



Gwynfor.

CHWILOTA

Balŵn Dros yr Wyddfa



YN DDIWEDDAR dangoswyd dysgl fechan i mi – tebyg iawn i flwch llwch. Arni roedd llun balŵn oren a glas, gyda'r llythrennau G-AZBX. Yn y fased o dan y falŵn roedd amlinell dau ddyn. Ar gefn y ddysgl roedd y geiriau canlynol: *'First balloon flight over Snowdon: Saturday 15 April 1972. Thursday's Child G-AZBX from Llanrug to Llanfrothen. Flight Time 45 minutes. Pilots: Fred Holcroft, John Waller.'*

Doedd gen i ddim cof o gwbl o ddarllen na chlywed am y fath daith, yn enwedig gan fod y geiriad yn honni mai o Lanrug y cychwynnodd y daith. O ble felly? Doedd dim amdani ond chwilio ôl-rifynnau'r *Caernarfon and Denbigh Herald* am fis Ebrill 1972, ac yno, wythnos wedi'r digwyddiad roedd adroddiad eithaf manwl am y falŵn a hedfanodd dros yr Wyddfa.

Grŵp yn galw eu hunain yn *'Jasper hot-air balloon group'* oedd yn gyfrifol am y fenter, ond nid yn Llanrug y cychwynnwyd ar y daith hanesyddol, ond yn y Waunfawr. Yn anffodus, nid yw'r union leoliad yn cael ei enwi, dim ond sôn am gyfarfod mewn cae ger y Waunfawr am un o'r gloch y pnawn, a gollwng nifer o fân falŵns heidrogen i'r awyr er mwyn ceisio mesur cryfder a chyfeiriad y gwynt. Bu hyn yn digwydd gydol y pnawn tra roedd y ddwy falŵn fased yn cael eu paratoi; sef Thursday's Child (lliw glas ac oren) a Serendipity (lliw glas a melyn).

Am hanner awr wedi pedwar y pnawn, cychwynnodd Thursday's Child ar ei thaith, ond cafodd ei chwythu heibio i Fetws Garmon ac ymlaen am Ryd-ddu, gyda Fred Holcroft a John Waller yn beilotiaid. Diflannodd o olwg y gwylwyr uwchben Beddgelert, ond llwyddodd i osgoi creigiau a chlogwyni Y Gymwynas (Bwlch Aberglaslyn), gan hedfan ymlaen am Brenteg. Ond rhywle islaw Pont Aberglaslyn aeth y fased yn sownd mewn coeden, a dyna ddiwedd y daith.

Yn y cyfamser, roedd Serendipity wedi cychwyn o'r Waunfawr hefyd, ac wedi cael gwynt tecach i'w chario i fyny dros ystlys yr Wyddfa. Yn beilotiaid arni roedd Lt. Terry Adams a Joe Philp, gyda Roy Midwinter yn ddyn camera. Dilynwyd y balŵn mewn car gan Mark a Terry Pritchard o Dudweiliog, ond y tro hwn, yn hytrach na dilyn ei chwaer am Feddgelert, hedfanodd Serendipity i gyfeiriad Nant Gwynant, a bu'n rhaid i'r gyrrwyr ceir anelu am Llanfrothen a Chroesor i geisio gweld lle byddai'n glanio.

Rywe yng nghyffiniau'r Cnicht a'r Moelwyn, gwelodd y peilotiaid fod gorsaf bŵer Ffestiniog yn agosáu, a dechreuwyd poeni y byddai'r balŵn yn taro'n erbyn peilonau a gwifrau trydan yr orsaf honno. Felly, penderfynwyd diffodd fflam y nwy, a disgynnodd y balŵn yn reit sydyn ar dir garw rywle uwchben Llanfrothen.

Yn ffodus, chafodd peilotiaid yr un o'r ddwy falŵn eu hanafu er

iddynt orfod glanio'n ddisymwth. Un o aelodau'r *'Jasper hot-air balloon group'* sy'n adrodd yr hanes yn y wasg, ond mae'n amlwg fod camgymeriad yn yr adroddiad neu yng ngeiriad y ddysgl.

Tybed a gafodd y ddysgl ei pharatoi cyn diwrnod yr hedfan? Ai bwriad y peilotiaid oedd cychwyn yn Llanrug a chyrraedd Llanfrothen? Beth fu'r achos iddynt newid eu meddyliau, a chychwyn yn y Waunfawr? A pham mai Thursday's Child sy'n cael y clod am hedfan dros yr Wyddfa, er mai mewn coeden ym Mhrenteg y glaniodd?

Os oes unrhyw un o'r darllenywyr yn cofio'r digwyddiad, tybed a fedrwyd gysylltu i egluro ble'n union yn y Waunfawr y cychwynnodd y daith hanesyddol hon. Ac a oes unrhyw un yn gwybod pwy fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r ddysgl i gofio'r daith – ac a oes mwy ohonynt ar gael yn rhywle?


Cartref i Fechgyn ym Metws Garmon

Tra'n ymchwilio'n ddiweddar i hanes garddwr a'i deulu o Fetws Garmon, deuthum ar draws cyfeiriad at gartref i fechgyn yn llyfrau log yr ysgol. Mae'n ymddangos mai dieithriaid oedd yn byw yn Tan y Garreg, Betws Garmon, yn ystod y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 1912 enwir y penteulu fel Johannes G. Stegoe, brodor o'r Iseldiroedd. Pwy tybed oedd hwn, a pham tybed y daeth i Fetws Garmon i fyw yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf?

Erbyn 1917 cyfeirir at y tŷ fel Tan y Garreg Boys Home. Y gwarchodwr (*guardian*) oedd gŵr o'r enw Moses Thomas, ac yr oedd metron yno o'r enw Miss Brown. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r enw Tan y Garreg Church Home yn cael ei ddefnyddio arno, ac erbyn 1919 fe'i gelwir yn St Garmon Home.

Mae'n amlwg mai bechgyn yn unig oedd yn cael cartref yno, a'r mwyafrif ohonynt yn dod o Loegr, er fod cyfeiriad at rai o dde Cymru hefyd. Tybed sut yr oedd ysgol fechan wledig fel un Betws Garmon yn dygymod â'r mewnlifiad hwn o hogiau dieithr i'w plith? Yn naturiol, bryd hynny, Saesneg fyddai iaith y dosbarth, ond beth tybed fyddai iaith y buarth, ac a oedd y bechgyn yn cymysgu gyda'r trigolion lleol o gwbl?

Byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy o hanes y cartref hwn ym Metws Garmon, yn enwedig pam y sefydlwyd ef yno yn y lle cyntaf, a phryd y cafodd ei



Y ddysgl gyda'r llun yn dangos y balŵn cyntaf i hedfan dros yr Wyddfa.

ddirwyn i ben. Mae'n amlwg hefyd mai eiddo i'r eglwys wladol oedd Tan y Garreg bryd hynny. Sut daeth yr eiddo i berchnogaeth yr eglwys wladol, a phryd y gwerthwyd ef? Mae'r cyfnod ble bu cartref plant yno yn dyddio i'r amser y rhannwyd yr eglwys wladol yn ddwy garfan – Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. Os oes eglwyswyr ymhlith y darllenywyr, efallai y gall un ohonoch egluro pam fod un yn cael ei galw'n Eglwys Loegr (*Church of England*), ond y llall yn Eglwys yng Nghymru (*Church in Wales*).

Gweinidog o Lanberis

Gan un o ffyddloniaid y golofn, Rhian Williams o Gaerdydd, y derbyniais y daflen goffhâd am y Parch John Pritchard, Llanberis (1875–1958). Roedd yn weinidog ar gapel Gorffwysfa yn y pentref, ac y mae'n wybyddus i lawer mai ef fu'n gyfrifol am ysgrifennu'r gyfrol sy'n croniclo hanes Ysgol Brynrefail o'i chychwyn hyd yr Ail Ryfel Byd.

Soniais yn y rhifyn diwethaf am gyd-ddigwyddiadau, ac unwaith eto'r mis hwn, wele gyd-ddigwyddiad arall. Mam Rhian Williams, sef Mair Owen, oedd y plentyn cyntaf i'r Parch John Pritchard ei fedyddio yng nghapel Gorffwysfa, a hynny 'nol yn 1910. A merch ieuengaf Mair Owen – Ceridwen – oedd y plentyn olaf iddo'i fedyddio yn yr un capel, a hynny bron i ddeugain mlynedd yn ddiweddarach yn 1947.

Roedd trefn y gwasanaeth coffáu dan ofal y Parch D. J. Williams, gweinidog Salem, Caerdydd, ac yr oedd ef hefyd yn un o'r tri gweinidog oedd yn talu teyrngedau i'r diweddar Barch John Pritchard. Y ddau arall oedd y Parchedigion D. R. Lewis a Gwilym Williams.

Field Terrace, Llanberis

Diddorol oedd darllen llythyr Eifion Roberts ynglŷn â cham-gyfieithu enwau strydoedd yn Llanberis. Mae'n syndod cymaint o enwau dieithr sy'n perthyn i'r pentref – gwaith ymchwil diddorol i rywun dros fisoedd y gaeaf. Wrth chwiloa drwy hen ddogfennau yng nghasgliad Glynllifon yn yr Archifdy, deuthum ar draws y cyfeiriad canlynol, sef cofnod o chwarel Glynrhonwy yn cael ei gosod ar lês ym mis Medi 1862. Mae'n amlwg mai gwŷr busnes

oedd yn llygadu elw sydyn oedd y 'consortium' a ddaeth ynghyd i gytuno ar y lês, ac nid pobl leol mohonynt chwaith. Dyma'r enwau: *'John Lane, late of London, but now of Llanberis, gentleman; Thomas Field, Edinburgh, slate merchant; James Watson, Edinburgh, slate merchant; John Mackenzie, Coalbridge, Lanarkshire, engineer; William Darley Bentley, London, shareholder a David Johnston Macbrair, Edinburgh, solicitor.'* Cwta chwe blynedd fu'r rhain yn gyfrifol am y chwarel, ac yn 1866 fe werthwyd y lês i Gwmni Cambrian Slate. Mae Lane a Field yn enwau sydd wedi parhau gyda chysylltiadau â Llanberis. Efallai y daw mwy o'u hanes i'r amlwg yn ystod y misoedd nesaf.

Roedd y llith hwn yn cael ei anfon i'r wasg fel y daeth rhifyn Rhagfyr drwy'r drws. Dim amser felly i dderbyn unrhyw ymateb ynglŷn â Began Ifan, Teulu Tai Cwm Brwynog, Marconi, na'r cysylltiadau â Phatagonia. Ond siawns na ddaw rhywfaint o wybodaeth erbyn canol Ionawr, gan obeithio hefyd y bydd ymateb i ymholiadau'r rhifyn hwn.

Yn y cyfamser, daeth gwybodaeth i law am ffotograffydd o Lanberis a anrhydeddwyd oherwydd ei wrhydri yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cawn yr hanes yn llawn yn rhifyn Chwefror 2007!

Erbyn hynny hefyd, bydd cymdeithas hanes lleol newydd sbon wedi ei sefydlu ar gyrion bro'r *Eco*. Bydd y cyfarfod agoriadol yng nganolfan newydd Llanwnda ddechrau Ionawr, a bydd y gymdeithas yn canolbwyntio ar blwyfi Llanfaglan, Llanwnda a Llandwrog. Fe welwch felly ei bod yn gor-gyffwrdd â rhannau o bentrefi'r Waunfawr a Betws Garmon yn ein dalgylch 'ni'.

Gan ddymuno Nadolig dedwydd i bob un ohonoch, gan edrych ymlaen am flwyddyn newydd llawn chwilfrydedd i chwiloa am fwy o dameidiau blasus yn ymwneud â hanes ein bro. Diolch i baw a fu mor barod i ymateb i'r amryw ymholiadau yn ystod y flwyddyn, a diolch i'r rhai ohonoch a fu wrthi'n chwiloa eich hunain i ddod â gwybodaeth newydd am wahanol agweddau o'n hanes lleol. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

Cyfarchion Nadolig Caeathro

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 672072

GWERTHU . TRWSIO

TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL

NADOLIG LLAWEN A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I BAWB



*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn*

GAREJ GWALIA



CAEATHRO

Ffôn: 673096



**Gwasanaeth
Torri Lawr 24 awr
M.O.T. * Trwsio Ceir**



Ar agor 7.30 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd,
diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

Colofn y Plant



Diring! Diring! Sbonach Bach sy yma'n clebran. Sut ydach chi, 'mhlant i? Dim ond pum diwrnod eto ac mi fydd hi'n ddydd Nadolig. Ewadd dwribididw! Mi glywsoch mae'n siŵr, fy mod wedi bod ar wylia! Ia, ia, am dair wnos, yng ngwlad Siôn Corn! Ewadd dwribididw! Un sâl sobor erioed fu Sbonach Mawr am gadw cyfrinach, a finna wedi meddwl dweud yr holl hanes wrthych

unwaith y byddwn wedi dychwelyd adara! Gwlad Siôn Corn! Lle oer ofnadwy! Mi roedd mwg eich anadl yn rhewi yr yr aer, ac mi roedd fy nhraed fel rhewgelloedd. Ond roedd yno faint fynir o eira, ac mi oedd pawb yn garedig wrtha i, yn glên iawn, ac yn baglu dros eu coesau wrth geisio fy helpu.

Mi roeddwn yn clywed fod 'na eira wedi disgyn whisht-shlwsh-shlwsh-shlwsh ar gopa'r Wyddfa tra roeddwn yng ngwlad Siôn Corn, a'i fod wedi aros yno am rai dyddiau, a'r un lle arall y mae'n siŵr braid gen i! Mae Mistar a Musus Siôn Corn yn byw mewn cwt eira sy'n un hir, a choblyn o fawr. Ewadd dwribididw!

Beth am sgwennu hanes dyn, neu ddynes eira, neu gwneud lluniau ohonynt yn dawnsio yn yr eira hefo Mistar a Musus Siôn Corn, wrth ymyl y car llusg a'r ceirw, a dangos y lluniau neu ddweud y stori wrth eich

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Yvonne Griffiths Jones, Delfryn gynt, ar enedigaeth mab, Ellis, draw ym Methel.

BEDYDD. Ar ddydd Sul, 22 Hydref, bedyddiwyd Mari Gwyn, merch Llio ac Arwel, Glanrafon Bach, a brawd i lestin, gan y Parch Huw Dylan yng Nghapel Caeathro.

APÊL CANOLFAN Y CAPEL. Diolch i aelodau, hyfforddwyr, rhieni a phwyllgor Clwb Jiwdo Segontium am drefnu taith gerdded mewn gwisg ffansi ar hyd Lôn Las Menai. Codwyd £200 tuag at Apêl Adnewyddu Canolfan y Capel. Diolch yn fawr i bawb.

PEN-BLWYDDI O BWYS. Mae Jennie Owen, Erw Wen wedi dathlu 80 mlynedd o oes. Llongyfarchiadau gwresog iddi a hefyd i Selwyn Hughes, Erw Wen, ar ei ben-blwydd yn 70 oed ddiwedd mis Tachwedd. Treuliwyd noson ddifyr yn y Gwendraeth. Hefyd yn ystod yr adeg yma roedd Peris Thomas, Bryn y Gof, yn 50 oed.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr ar nos lau, 30 Tachwedd yng Nghanolfan y Capel, Caeathro. Roedd y Cyng. Clive James, y Cadeirydd, a'r Cyng Vera Roberts yn bresennol.

Doedd dim i'w adrodd o du Cyngor Gwynedd ynglŷn â diogelwch ar y briffordd i'r Bontnewydd; cyflwr wyneb y ffordd drwy'r pentref a blaenoriaeth i gerddwyr ar y ffordd i'r siop.

Roedd y Cyngor yn gefnogol i gais cynllunio i godi gweithdy newydd i Garej Gwalia drwy'r fynedfa i Ros Wdia, ac i gwt i

gynnal mynwent y capel.

Bydd praesept treth y Cyngor Cymuned yn aros yr un fath yn 2007/08. Efallai y bydd gwelliannau i'r llwybr cyhoeddus o Llety i Ysbyty. Mae'r Archwilydd wedi cytuno i fantolen y Cyngor am y cyfnod 2001/02–2004/05 yn amodol ar reolaeth well yn y dyfodol.

DIOLCHIADAU. Dymuna Jennie Owen, 1 Erw Wen, ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, y llu cardiau a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Disgwylir cynnal y canlynol yn ystod mis Ionawr 2007:

7: 2.00 Parch Iorwerth Jones Owen

14: 11.00 Ysgol Sul

21: 11.00 Ysgol Sul

2.00 Parch Ronald Williams

28: 11.00 Ysgol Sul.

CYFARCHION Y TYMOR.

Dymuna Tîm yr Eco yng Nghaeathro Nadolig Llawen i'w holl ddarllenwyr a Blwyddyn Newydd Dda ar gyfer 2007.

Y 'Z' 'Na

Bu bron imi ddisgyn i'm troli pan welais i'r 'z' 'na ar y tuniau ffa pob (gan y cwmni bydenwog). Pam? I be? Ia, i werthu, mwya tebyg! Be nesa? Os bydd cwmniau mawr eraill yn dilyn yr un esiampl bydd yr iaith fain yn frith o'r llythyren yma bob tro y bydd angen llusgi, ac os felly, bydd y croeseiria' dwi'n chwysu drostynt yn frith ohoni hefyd (gyda llawn, mi YDW i'n llenwi croeseiriau yn fy mam-iaith hefyd).

Pa neges mae hyn yn rhoi i blant hefo'r pwyslais ar sillafu'n gwanhau unwaith eto? Sut eiriadur fydd yna yn y dyfodol?

Wel, dyna fo – dwi wedi cael llond bol – dwi am noswyllo rŵan. Nos da.

Z-z-z-z-z-z-z-z

Em.H.

cyfeillion? Cofiwch hefyd baratoi llythyr bach i ddiolch i Siôn a Mari a'r ceirw am deithio mor bell atoch eto eleni er mwyn gadael anrhegion ar eich cyfer. Mae Musus Sbonach yn gadael gwydraid o lefrith cynnes a mins pei wrth y ffenest yn y gegin bob blwyddyn, ewadd dwribididw! fel y gall Siôn Corn eu hyfed a'u bwyta. Y llynedd, fel y flwyddyn cynt, mi wnaeth Mistar Corn adael neges i Musus Sbonach. Ewadd bach!

Annwyl Musus Sbonach,
Diolch i chi, Musus, am y mins pei a'r llefrith cynnes. Mi roeddynt yn dda dros ben. Mi roeddwn yn sobor o oer ac wedi cael annwyl a'm trwyn yn llawer oerach nag ydi hi ar ben ucha Moel Eilio yng nghanol y gaeaf, ond mi wnaeth bwyta y mins pei ac yfed y llefrith fy nhwymo. Ewadd dwribididw, Musus. Diolch o galon i chi!

oddi wrth

Siôn Corn

noson cyn 'Dolig y flwyddyn 2005
Ar cyfan ddweda i ydi, Ewadd dwribididw!

SBONACH BACH

CARPEDI GLÂN ERYRI

• PELLTER DDIM
YN BROBLEM



• DIM UN DASG YN RHY FACH

CWMNI LLEOL

ffôn

07917116615

ebos- carpediglaneryri@hotmail.com

AMCAN BRIS AM DDIM

**Mae pobl dros 50 oed yn
ymddiried yng nghynhyrchion
a gwasanaethau
Age Concern**

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

**AGE
Concern**

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i rooleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gwesthredu o tua 300 o Age Concern lleoli ledled y DU.

**Silver
STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda*



cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

**Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon**

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



Cyfarchion y Tymor i bawb



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â Gomer Roberts

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

**Bistro
LLANBERIS**

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: **DANNY a NERYS ROBERTS**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarlleswyr yr Eco*

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW

KEITH BOWEN • ROB PIERCY

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

Nadolig Llawen

a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth **Lfor a Margaret**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: **(01286) 872501**

BWS BACH AR LOG



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi
preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu
ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS
I'W DDATHLU'N
DDIOGEL**

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda*



**Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb**

- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



**ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**



(Quality Hotel Snowdonia)

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: **Llanberis 870253**



CYFARCHION NADOLIG BETHEL

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth barwb yn

R. L. DAVIES

Coed Belyn Mawr, Bethel

Offer i'w logi ar gyfer:

- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith
clirio safleoedd



Hefyd: Lle i wagio
sbwriel inert a
Hardcore ar werth

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620

Y BWTHYN TÊ pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-

BWTHYN A ADELADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF. CEWCH GROESO
ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH DROS LLYN PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN

DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbl)

MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286) 872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

CYFLENWYR PORTHANT IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

**Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:**

01248 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

www.ceircymru.com

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 17 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2007 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: 'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
A STAFF

**SIOP TREFLYN
BETHEL**

Ffôn: (01248) 670106



Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda


Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

01286 830 805



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn
cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad neu
ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu e-bost: williamsgw@parliament.uk

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor,
yswiriant, talu bilïau, etc., yn ogystal â
gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a
Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

YSGOL BETHEL

Plant Mewn Angen. Llwyddodd yr ysgol i godi £295 tuag at gronfa Plant Mewn Angen eleni. Bu dipyn o hwyl yng nghaffi Blwyddyn 5 a 6 efo'r plant yn prynu danteithion o bob math a chwarae gemau di-ri. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

Sul y Cofio. Cafwyd gwasanaeth urddasol unwaith eto eleni ar Sul y Cofio. Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 am wneud eu gwaith mor raenus.

Eisteddfod Bethel. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Bentref eleni. Y llenor buddugol oedd Guto Griffiths o Flwyddyn 6. Ysgrifennodd Guto gerdd am 'Yr Haul'. Da iawn chdi, Guto.

Arolwg. Arolygwyd yr ysgol cyn gwyliau hanner tymor gan ESTYN a chafwyd adroddiad rhagorol. Braf yw gweld fod y gwaith caled sy'n mynd ymlaen yn yr ysgol yn cael ei gydnabod.

Llongyfarchiadau mawr i'r staff, Llywodraethwyr a'r plant ar dderbyn adroddiad mor wych.

Mosaic. Rwy'n siŵr eich bod wedi sylwi wrth basio'r ysgol ar y campwaith sydd ar y wal tu allan! Cafodd y plant oriau o bleser yn gweithio efo'r artist preswyl, Heather Lowe. Diolch i bawb am gyfrannu'r teils a diolch hefyd i'r rhieni a ddaeth i gynorthwyo efo'r mosaic. Rydym yn dal i chwilio am wirfoddolwyr tal i orffen y rhan uchaf o'r mosaic! Cysylltwch efo'r ysgol os ydych ar gael.

Gala Nofio'r Urdd. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn y gala yn ddiweddar. Llwyddodd Gethin Jones, Blwyddyn 5, i ddod yn gyntaf mewn dwy ras a daeth lolo Hughes o Flwyddyn 6 yn ail yn ei ras yntau.

Clwb Plant Bethel. Ar ôl cryn dipyn o lenwi ffurflenni mae Clwb Plant Bethel ar hyn o bryd yn cael ei gofrestru gan y CSIW. Gobeithir y bydd y clwb ar ei draed yn fuan iawn yn y flwyddyn newydd.

Llongyfarchiadau i Mrs Sandra Duggan-Edwards o Fethel ar gael ei phenodi fel arweinydd y clwb ac i Miss Delyth Owen o Gaernarfon ar gael ei phenodi yn gymhorthydd i'r clwb.

Llwyddiant i Gethin Jones. Llongyfarchiadau mawr i Gethin Llyr

Jones o Flwyddyn 5 ar ei llwyddiant yn y pwl nofio yn ddiweddar. Fis Tachwedd, fe enillodd Gethin un fedal aur a thair medal arian yng ngala 'Cymru Coast', sef gala rhwng clybiau Caernarfon, Bangor, Llandudno, Rhyl, Bae Colwyn ac Ynys Môn. Bydd Gethin hefyd yn cynrychioli Eryri ym mis Ionawr yng Ngala Genedlaethol yr Urdd mewn dwy ras - 50 metr cefn a 50 metr dull rhydd. Caiff gyfle i gystadlu ym mhwl Cenedlaethol Cymru yn Abertawe. Bydd yn brofiad gwyhiddo!

Mae Gethin yn cael ei ddysgu i nofio gan Mr Hans Hellfeld ym Mhlas Menai ac yn cael ei hyfforddi yng Nghlwb Nofio Caernarfon.

Nos Wener, 24 Tachwedd, cymrodd Gethin ran yng Ngala Clwb Caernarfon yn y ras 1500 metr (60 hyd y pwl) a'i gwblhau mewn 30 munud 17 eiliad! Dipyn o gamp! Cafodd ei noddi yn y gystadleuaeth yma ac ar hyn o bryd mae wedi codi ymhell dros £1,000. Bydd yr arian yn mynd tuag at gronfa OG08 (ymchwil i gancr gynaecolegol) yn Ysbyty Gwynedd, sef y gronfa y mae Eirlys Pierce, Llanrug, yn ei chefnogi. Diolch o galon i bawb a noddodd Gethin. Rwy'n siŵr y cytunwch fod yr arian yn mynd at achos arbennig iawn.

Da iawn ti, Geth, dal ati!

Diolch hefyd i Gwion, Llanrug, ac i Anni o Benygroes am gasglu arian efo'u nofio nodedig hwythau.

CLWB 100 Y NEUADD.

Enillwyr mis Hydref oedd: £40: (11) Gwilym Williams, 20 Y Ddôl; £20: (34) Helen Williams, Ty'n Gadlas, Pentir; £10: (123) Mr a Mrs James, 8 Bro Eglwys.

Enillwyr Tachwedd oedd: £40: (152) Susan Jones, 12 Bro Rhos; £25: (56) Eifion a Bethan Jones, Glasgoed; £10: (96) Bethan Lewis Roberts, Penrhos Farm.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Clwb 100 ond mae croeso i aelodau newydd helpu i gynnal y neuadd. Cysylltwch â Iorwerth, Nan neu Geraint os am ymuno.

LLONGYFARCHIADAU i Huw Llywelyn ar ennill Ysgoloriaeth Susan Chilcott, mewn cysylltiad â'r Royal Philharmonic Society. Derbyniodd Huw yr ysgoloriaeth ar



Capel Bethel, Nadolig 1976

Bechgyn Capel Bethel (A) yn y gwasanaeth Nadolig. (Rhes flaen): Paul Humphreys, Gareth Hughes, Andrew Evans. (Rhes ôl): Meirion Wyn Jones, Neil Jones, Peter Sharpe a Meirion Williams.

Y bechgyn i gyd wedi cyrraedd eu 40 ddiwedd y flwyddyn yma!!

ddiwedd Tachwedd mewn achlysur a gynhaliwyd yn Llundain yng nghwmni Jonathan Dimpleby, cadeirydd Ymddiriedolwyr Ysgoloriaeth Susan Chilcott.

Ddechrau Rhagfyr bu Huw, ynghyd â Mari Wyn o Lanberis, yn canu yn y Tabernacl, Rhuthun, mewn perfformiad o *Er Hwyllo'r Haul*, gan Robat Arwyn, yng nghyngerdd blynyddol Côr Rhuthun a'r Cylch, gyda Morfudd Vaughan Evans yn arwain ac Annette Bryn Parri a Robat Arwyn yn cyfeilio. Ar y noson lawnsiwyd cryno ddisg o'r gwaith, sy'n cynnwys unawdau a deuawdau gan Huw a Mari.

Yn y flwyddyn newydd bydd yn canu mewn cyngerdd yn Theatr Clwyd a chyngerdd Tri Tenor yn Musselburgh a Sterling yn yr Alban, cyn ymuno ag Opera South fel Nemorino ar gyfer cynhyrchiad o *Elisir d'amore* gan Donizetti ac yna â Grange Park Opera fel Tbaldo yn *I Capuleti e I Montecchi* gan Bellini.

CYMDEITHAS ELNYDDOL.

Cafwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni Neville Hughes, Bethesda, yn y Gymdeithas yn ddiweddar. Yn dilyn y croeso arferol bu'n olrhain hanes sut y daeth yn aelod o Hogia' Llandegai dros bedwar deg o flynyddoedd yn ôl, ac wrth iddo ganu gyda'i gitâr cafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i uno mewn nifer fawr o'r caneuon a ganai'r hogia ar hyd y blynyddoedd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo am rannu profiadau difyr a dwys gan Elwyn Hughes. Bydd yr aelodau yn cynnal Noson Nadoligaidd yn y cyfarfod nesaf.

CLWB BRO BETHEL. Dathlu'r



Gethin Jones, Blwyddyn 5

Nadolig fu hanes yr aelodau yng nghyfarfod mis Rhagfyr a hynny yn Y Bedol. Mwynhawyd bwyd ardderchog gan bawb a braf oedd cael cymdeithasu ymysg cyfeillion.

Uchafbwynt y cyfarfod oedd ymweliad gan Siôn Corn a diolch iddo am rannu o'i sach a chyflwyno anrheg fechan i bawb. Diolchwyd i Eunice Roberts a Gwyneth Williams am yr holl drefniadau ac am sicrhau fod pawb yn derbyn gwobr yn y raffl. Diolchwyd hefyd i staff Y Bedol ac anfonwyd cofion at yr aelodau oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd.

Dymuniadau gorau i bawb dros y Nadolig. Ar 2 Ionawr y bydd y cyfarfod nesaf, yng nghwmni Richard Lloyd Jones.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco



Digwyddiadau dros gyfnod y Nadolig

Nos Sadwrn, 23 Rhagfyr 7pm

Bwffe Nadolig gyda'r band Mooncoin

Mae Caffi Caban ar gau o 3pm pnawn Sul, 24 Rhagfyr tan 9am Bore Mercher 27 Rhagfyr

Dydd Sul, 31 Rhagfyr 8pm
Dydd Llun, 1 Ionawr, 11am

Parti'r Flwyddyn Newydd gyda Bandabacana
Caffi'n agor gyda llond cegin o fwydydd di-tox!

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED CWM-Y-GLO

Ffôn: (01286) 870563

Diolch am eich cefnogaeth





*Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

SNOWDONIA FIRE PROTECTION YR HEN EFAIL, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym
mro'r Eco

Antur Waunfawr

01286 650 721

www.anturwaunfawr.org



Mae pawb yn

SIOP SGLODION Y PENTREF

THE VILLAGE CHIPPY

WAUNFAWR, Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720



Mae
Lleufer, Nelma,
Tegid a Sam Pritchard



CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod
y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

- ★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
- ★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
- ★ 40 O '3-PIECE SUITES'

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

EISTEDDFOD BENTREF.

Cynnyrch enillwyr y gystadleuaeth
'Portreadau' yn Adran Llên yr
Eisteddfod.

Blwyddyn 3

Cyntaf: Dafydd Llwyd

Mae Iwan yn frawd bach i mi. Iwan
ydi y lleiaf yn y teulu.

Mae o yn 3 oed. Mae o yn gallu
bod yn gas. Weithiau mae Iwan yn
hogyn da. Mae Iwan yn hoffi jcb's.
Hoff fwyd Iwan ydi ham. Hoff
ddiod Iwan ydi diod afal a llefrith.
Cas bethau Iwan ydi Bratz a
pethau pinc a piws. Rydw i yn hoffi
chwarae efo Iwan. Mae Iwan yn
hoffi gwyllo Hip neu Sgip. Pan
mae Iwan yn flin mae o yn brathu
a pinsio a cicio. Lliw llygaid Iwan
ydi brown a gwyrdd. Un tro aeth
Iwan i'r pwll nofio. Roedd yn
eistedd ar y fflot crwn ac yn cael
hwyl yn y pwll bach ond roedd o
eisiau mynd i'r pwll mawr ac aeth
ar y fflot i'r pwll mawr. Iwan ydi'r
brawd mwyaf drwg yn ein teulu ni.

Ail: Kushla

Osian yw fy mrawd mawr. Mae o
yn 11. Mae Osian yn hwyl
oherwydd mae o yn deud jocs. O'r
blaen roedd o wedi deud, 'Pam
oedd y fflat Jac wedi croesi'r lôn?
Oherwydd oedd o wedi gweld ei
fflat met!'

Roedd Osian yn mynd i ysgol
Waunfawr a dydw i ddim yn hoffi
fod o yma. Rwan mae o yn mynd i
ysgol Brynrefail ac mae o yn hoffi

yr ysgol newydd. Mae gan Osian
lygaid gwyrdd a gwallt brown.
Rydw i yn chwarae pêl-droed efo
Osian ac mae o eisiau chwarae
pêl-droed pan mae o wedi tyfu.
Rydw i yn meddwl ei fod o yn dda.
Ei hoff liw ydi glas. Weithia rydw i
yn ffraeo efo Osian pan mae o
eisiau chwarae pêl-droed ar ben ei
hun. Rydw i yn caru Osian am
byth. Y brawd gora yn y byd yw
Osian.

Trydydd: Brandon.

Mae mami yn hoffi Galacsi a mae
mami yn cuddio y siocled i gyd.
Rydw i yn gwbod lle mae o ac
rydw i yn dwyn y siocled. Mae dadi
yn gwachad pêl-droed ac rydw i
yn troi o drosodd. Mae dad yn
dweud troi o yn ôl.

Mae Keiran yn ciwt a mae
Keiran yn hoffi hot wheels a mae
Keiran yn hoffi fi. Rydw i yn hoffi
fo. Mae Shanenn yn hoffi Barbi a
Fyrbi a Bratz.

Blwyddyn 4

Cyntaf: Megan Enlli.

Tesni Haf yw fy ffrind ac mae hi a
fi yn 8 oed. Mi rydan ni yn ffrindiau
gorau ers bl. derbyn. Mae Tesni yn
un ddoniol go iawn a dwi bob tro'n
chwerthin. Hoff fwyd Tesni yw
melon dŵr ag oren. Mi fydda i'n
disgrifio Tesni yn glên go iawn
oherwydd mae hi yn fy helpu pan
dwi angen help. Hoff anifeiliaid
Tesni yw pysgod a cwningod a
dwi'n falch bod hi wedi dewis

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH CARMEN A PHAWB
YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

**Dewch gyda'r trênn stêm
o Gaernarfon ac aros
AM GINIO DA!**

Rydym yn syrffio bwyd blasus drwy'r dydd,
bob dydd o 11 am – 8.30 pm

A 'does dim rhaid dod ar y trênn!
Cofiwch... **bob dydd Sul...**
cinio traddodiadol £5.95
Bwyd cartref blasu
o gynnyrch lleol

cwningod oherwydd dwi'n hoffi nhw hefyd. Tesni ydi'r un sydd yn helpu bob tro.

Pan roeddwn yn cael pen-blwydd mi gefais ddwy eneth yn cysgu draw, Tesni a fy ffrind arall, Megan Eira. Pan oeddwn i yn trio cysgu mi roedd Tesni yn symud gwlaau bob tro. Gwely fi, gwely Megan Eira a gwely hi ei hun a mi roedd hi yn dal yn ei wneud am ddwy awr a mi roeddwn i fyny tan 2 o'r gloch yn y bora ag mi roedd fy mharti y diwrnod wedyn! Ond aethom i gysgu am hanner awr wedi dau yn y bora.

Pan mae Tesni a fi yn ffraeo dwi'n teimlo'n drist ond dani yn mynd yn ôl yn ffrindiau ar ddiwedd y dydd. Mae gwallt Tesni yn frown golau ag mae ei llygaid yn wyrdd. Mae Tesni yn eitha tal ond dim ots gen i. Dwi yn hoffi bod yn yr ysgol efo Tesni. Hi ydi'r ffrind gorau yn y byd!

* * *

Ail: Sophie

Mae Sam yn 11 oed. Mae Sam yn gefndar i mi. Mae o'n hwyl i chwarae oherwydd mae o yn rhoi fi ar ei ysgwydd fo. Mae Sam yn cario fi lot o weithiau. Mae Sam yn ddoniol. Mae Sam yn chwarae rygbi. Mae gan Sam chwaer, does ganddo fo frawd. Pan roeddwn i a fo yn tŷ nain roedd wedi rhoid bol fi ar ei ysgwydd a cerdded i fyny y grisiau ac roeddwn i ofn disgyn. Mae gan Sam wallt brown, mae ganddo lygaid brown hefyd. Mae Sam yn hoffi chwarae Runescape. Un waith roedd Sam wedi dod i parti Ryan a roedd fy ffrind wedi dod i fy ngweld i.

Gwelodd Sam hogyn bach ar y pafin a wedyn roedd Sam wedi dweud, 'Cyffwrdd fy llaw a wedyn dywedodd, "ie met".' Fi yn hoffi Sam mwy nag unrhyw berson yn y byd.

* * *

Cydradd Drydydd: Megan Elan

Dyma bortread o Gwion. Fy mrawd ydi Gwion. Mae ganddo lygaid gwyrdd. Mae Gwion yn ddoniol iawn oherwydd mae o yn dweud pethau doniol wrth mam ac wedyn dwi yn chwerthin. Gwallt brown goch sydd gan Gwion. Mae'n hoffi gwyllo Casualty a'r Bill. Mae Gwion eisiau bod yn feddyg neu'n ddyn tân ar ôl iddo dyfu. Hoff fwyd Gwion ydi pysgodyn ac mae Gwion yn farus iawn. Bob tro dwi yn mynd i'r siop mae Gwion yn dwyn dadas gen i ac ar ôl iddo eu gorffan nhw mae o yn dweud, 'O mam, dydi hi ddim yn deg bod Megan wedi cael dadas.'

Un diwrnod aethom ni am dro i Bala a syrthiodd Gwion i mewn i'r dŵr ac wedyn aeth Carwyn a fi i mewn i'r dŵr i chwarae. Wedyn naethon ni syrthio i mewn i'r dŵr. Er fod o yn wirion fo yw fy angel a rwyf yn ei garu fo mwy na neb yn y byd.

Gwion ydi enw fy mrawd. Mae ganddo wallt strobery blond a llygaid gwyrdd. Mae o yn blentyn sydd yn goci i gyd pan mae o yn chwilio am drwbl ond tydio byth yn cael ffeith, wel fel arfer beth bynnag. Gwion ydi'r un mwyaf cenfigenus yn y tŷ, mae o eisiau pob dim dwi yn gael ond mae o yn dwyn pethau fi trwy'r adeg. Gwion yn wyllt iawn.

Mae Gwion yn hapus iawn trwy'r adeg. Just iawn os ydi Gwion yn cael ei frifo mi wneith o ffegio crio a chwerthin wedyn.

Hoff bethau Gwion ydi y teledu a PS2. Mae Gwion yn hogyn mam go iawn. Tydi Gwion ddim yn licio iogwrt rasbery. Rydym ni yn ffraeo lot fawr. Ond fo ydi'r brawd gorau yn y bydysawd.

Cydradd Drydydd: Jacob

Dyma bortread o Joshua Jones. Joshua ydi fy mrawd bach i. Mae Joshua yn gallu bod yn slei iawn. Yn Tesco rydan ni yn chwarae o gwmpas a fi sy'n cael y bai bob tro.

Mae Joshua wedi dechrau mynd i ysgol Waunfawr ac oed Joshua ydi 4. Ei hoff raglen ydi Lazy Town a pan dwi'n gwyllo fy nheledu ac dwi'n mynd i nôl dada mae Joshua yn troi y sianel. Dwi'n ffraeo efo Joshua ond dwi'n meddwl y byd o Joshua. Lliw llygaid Joshua ydi glas a lliw ei wallt o ydi brown a dipyn o felyn. Hoff fwyd Joshua ydi selsig efo sos coch, a hoff ddiod Joshua ydi Appleade. Pan mae fy ffrindiau yn dod draw mae Joshua yn tynnu clustiau nhw.

Joshua ydi y brawd gorau yn y byd!

* * *

Blwyddyn 5

Cyntaf: Jessica

Enw fy anti yw Jean Williams. A mae hi efo gwallt brown a llygaid gwyrdd ac efo bachgen o'r enw William. Mae hi yn byw yn Caeathro yn y tŷ, Llety a mae yn 50 oed. Mae hi yn lot o hwyl ac yn siaradus ac yn hoffi gweu a garddio. Mae bob tro yn hapus a taclus a clên. Mae fy anti yn hoffi opera a canu. Mae hi yn hoffi Bryn Terfel yn canu. Mae yn hoffi bwyta ac yfed gwin.

Un diwrnod fe aeth hi efo fy antis eraill i wyllo yr opera a roedd hi wedi yfed lot fawr o win a roedd hi wedi meddwi. Roedd antis eraill yn gorfod cario hi allan o'r opera a mynd â hi adref. Mae fy anti yn gwneud lot o win efo ffrwythau. Mae gan fy anti lot fawr o flodau yn ei thy ac yn yr ardd. Weithiau rwy'n helpu fy anti i roi y dellad ar y lein a helpu hi i beintio'r tŷ.

* * *

Ail: Mared Rhys

Enw fy nain ydi Nel, neu Nain Bethel i fi. Cafodd fy nain ei geni yn Cartref, Lôn Glai, ger Pontrug. Cafodd hi naw plentyn ac mae fy nhad yn un ohonyn nhw. Mae fy nain i yn enwog oherwydd mae hi wedi ysgrifennu tri o lyfrau o'i bywyd hi. Ein perthynas ni ydi mae fy nhad yn fab iddi felly dyna sut mae hi yn nain i fi. Mae fy nain yn berson hapus. Mae hi yn gallu bod yn ddoniol weithiau. Mae hi yn dawel ac heddiw mae hi yn wael. Heddiw hefyd mae hi yn byw yn cartref Foelas yn Llanrug. Roedd fy nain yn hoffi ysgrifennu a darllen, hefyd roedd hi yn gwneud modelau ac heb anghofio roedd hi yn hoffi mynd â Tomos, y ci, am dro. Mae ganddi hi wallt llwyd a llygaid glas. Mae ganddi hi ychydig o spots.

Un diwrnod poeth pryd aethon ni i weld nain gwnaeth Elgan i nain a fi fynd â Tomos y ci am dro rownd Bethel, oherwydd dyna lle roedd hi yn byw cyn mynd i cartref Foelas. Yn gyntaf mi wnaeth

Elgan dynnu'r lîd. Wedyn gofynnais wrtho os ga i gymeryd y lîd ac pryd wnes i dechreuodd Tomos redeg, felly roeddwn yn gorfod rhoi o yn ôl i Elgan. Pryd cymerais i o yn ôl roedd Tomos yn mynd yn rhy araf felly roeddwn yn gorfod dweud wrtho i fynd ychydig bach yn fwy cyflym ac o'r diwedd mi wnaeth o. Ar y ffordd yn ôl gwelsom lawer o bobl roedd nain yn eu adnabod felly roedden ni yn gorfod stopio i siarad gyda nhw. Ar ôl mynd yn ôl i tŷ nain fe aeth dad, mam, Elgan a fi adref.

Heddiw mae nain yn 91 oed. Rydw i yn edmygu fy nain ac mae hi yn werth y byd i mi.

* * *

Trydydd: Guto

William yw fy ffrind gorau. Mi gyfarfyddais ef 8 mlynedd yn ôl ar y diwrnod cyntaf o Ysgol Feithrin. Mae bron yn ddeg. Rwyf yn fis a phump diwrnod yn fwy oherwydd mae ei ben-blwydd ar Hydref 30. Mae yn garedig ac yn feddylgar. Mae ganddo wallt melyn a llygaid glas. Un waith aethom i weld y goeden eirin a dechrau ei dringo hi. Cawsom lawer o eirin ond torrodd hen frigyn ac roedden ni'n styc ac roedd rhaid i ni neidio. Rwan mae wedi symud i Gaerdydd ond rwyf yn cysylltu gyda fo. Y tro diwethaf welais i o oedd pan aethom i Beddgelert i weld y bedd. Roeddwn yn chwarae pêl, wel taflu pêl tenis. Taflodd William yn bêl mor uchel mi laniodd yn yr afon. Ond yn lwcus roedd wedi gwasgu rhwng dwy gareg! Mae yn postio anrheg i fy mhen-blwydd a rwyf yn hoffi bob dim amdano.

* * *

Blwyddyn 6

Cyntaf: Dafydd

Dyma ddisgrifiad o fy nhad. Bob bore mae fy nhad yn mynd i'w waith efo panad yn ei law. Ac ar ei ffordd mae o'n stopio i chwistrellu y ci oherwydd mae hi'n diebetig. Ac yn saethu am ei waith. Ei waith yw godro gwartheg. Weithiau caf fynd efo fo i'r gwaith ond dim yn amal.

Ei enw fo yw Christopher ond mae pawb yn galw fo yn Chris. Mae o yn 49 oed ac mae ganddo wallt brown a llygadau glas. Ei daldra yw 6 troedfedd ac mae yn fain er ei fod yn bwyta llond bol o fwyd.

Ei hoff fwyd yw cacen gateaux ac mae'n eistedd o flaen y tân gyda offeryn cerdd yn ei law. Yn y bore pan fydda i yn paratoi i fynd i'r ysgol bydd na ddwy blât a cyllall a fforc ar ei hochr ar y bwrdd a hoel grefi a sos coch ar yr ochr.

Y pethau sy'n gwneud fy nhad yn flin yw bod yn hwyr i rywbeth. Mae'n casau bod yn hwyr i fy ymarferion pêl-droed. Un tro llewygodd fy nhad pan oedd yn y gegin pan welodd waed ar hyd ei law i gyd. Roedd wedi brifo ei law yn ei waith.

Y pethau gwiriona wnaeth fy nhad un tro crashodd 6 o geir taid ac yn y cae mae yna BMW-Mercedes-Rover - wedi cael eu malu yn racs. Pan oedd dad gyda greindr yng nghefn y tŷ roedd dad i fod i roi bolt i ddal y blade yn ei le ond daeth un o'i ffrindiau draw a dechreuodd y ddau siarad. Rhoddodd dad y greindr ymlaen ac fe saethodd y blade i ffwrdd a marcio lein ar y tŷ a sbarcs ym

mhob man.

Rydw i yn cael lot o hwyl gyda dad. Fo yw'r gorau.

* * *

Ail: Alun

Portread o taid

Enw Taid ydi Glyn Evans ac mae'n 59 mlwydd oed. Gwaith taid ydi hel sbwriel yng Nghaernarfon. Mae o yn byw yn Minafon, Brynrefail, efo Yncl John a Nain. Mae ganddo 7 o gŵn. Mae Taid yn hoffi ffarmio a dysgu cŵn defaid.

Lliw glas ydi llygadau taid a lliw ei wallt o yw gwyn. Mae'n foel ar top ei ben. Crys a trowsys Cownsil mae Taid yn wisgo a bwts 'steel toe cap'. Pan mae rhywun fel ffrind taid yn cyrraedd mae'n hoffi siarad am bethau erstalwm.

Cas bethau taid ydi cŵn poeth a sglodion. Hoff bethau taid ydi porc chops a gweddill y cinio dydd Sul.

Mae taid yn hoffi pryfocio fi a fy mrawd. Dyma 2 beth mae taid yn hoffi wneud i mi. Mae taid yn hoffi dweud bod Lerpwl yn dda i ddim byd pan mae nhw yn colli ond pan mae Lerpwl yn curo rydan ni yn pryfocio taid yn ôl. Hefyd mae taid yn hoffi ysgwyd llaw 'yr hen Al' a wedyn nid yw'n stopio gwasgu fy llaw. Mae taid yn ddoniol iawn.

Mae taid yn trio colli pwysau. Y peth doniol efo taid ydi pan mae o ddim yn gwisgo belt a mae ei boxyr shorts yn dangos ond mae ei drowsys yn dal ar ei goesau.

Fuasai taid ddim yn mynd mewn awyren am filoedd o bunnoedd. Os bysa Taid yn disgyn mewn pwll nofio bysa fo yn sincio fel bricsan medda fo. Roedd taid yn gweithio efo 3 o'i frodyr a'i dad. Fy nhad ydi'r taid gorau yn y byd.

* * *

Trydydd: Annest

Mam yw y fam orau yn y byd. Gwaith fy mam yw torri gwalltiau. Linda yw enw fy mam ac mae hi yn 44 mlwydd oed. Brown yw lliw gwallt fy mam i a gwyrdd yw lliw llygaid fy mam.

Bwyd gorau fy mam i yw sglodion, gamon, wy, pinafal a pys slwj. Hoff ddiod yw panad, wrth gwrs. Mae hi yn hoffi gwyllo 'What Not to Wear' ar y teledu.

Ei chas bethau yw plant yn ddigwilydd ac yn ateb yn ôl. Un tro pan aeth mam i nôl fi o karate roedd criw o hogiau, teenagers, yn eistedd wrth yml mam ac mi wnaethon nhw ddechrau bod yn ddigwilydd hefo mam. Mi wylltiodd mam hefo nhw ond mi wnaeth rhyw ddynes ddod a dweud wrth un o'r hogia, 'Dwi yn nabod dy fam di, so gwylia di dy hun, boio.' Wel am sioc gafodd yr hogyn yna! Wedyn meddyliodd mam, gobeithio na wnaiff yr hogia yna ddim gwneud hynny eto.

Rydw i yn dweud hyn un waith eto, Mam yw y fam orau yn y byd am byth bythoedd. Yr diwedd. CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Tachwedd oedd:

£40: Mrs R. A. Hughes, 15 Trefeilian; £25: Mr Reg King, Gernant; £10: Mr a Mrs A. Jones, Hafod y Rhug.

DYWEDDĪAD. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau da i Osian Gwynedd, Nant, ar ei ddyweddĪad â Natalie De Burgh o Borthcawl. Pob lwc iddynt.

(Parhad ar dudalen 11)



Cyfarchion Nadolig PENISARWAUN

**Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth**
oddi wrth

Blodau Racca

Alwyn a Sarah Penisarwaun Ffôn 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots' a Rithoedd Drws
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 118 247
- Hefyd, *Bouquets* Nadoligaidd



RHODD O'R GALON YW BLODAU

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarlennwyr yr Eco

Cyfarchion

Dylan Griffith

Y Tymor

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Cystadleuaeth

Ym mhle mae Siôn Corn yn byw?

Cyfle i ennill copi o lyfr newydd lliwgar i blant: *Nadolig Llawen*, gan Wasg Carreg Gwalch.

Anfonwch eich atebion at
Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon,
Nant Peris.



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYNRADD. Bu plant yr Adran Iau yng nghartref Nyrsio, Penisarwaun i ddiddori'r preswylwyr drwy ganu Carolau ar 13 Rhagfyr.

Ragfyr 14: bydd y Disgo Nadolig a Siôn Corn wedi bod a'r gwerthiant o eitemau Nadoligaidd oedd wedi eu creu gan y plant wedi eu gwerthu i gyd!

Cyngerdd Nadolig. Ar 20 Rhagfyr cynhaliwyd dau berfformiad, un yn y pnawn am 1.30 o'r gloch ac yna gyda'r nos am 6.30. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Hydref oedd Miss Linor Jones, 2 Bron y Waun, ac enillydd mis Tachwedd oedd Mrs Annie Hughes, Cae Hywel.

Llongyfarchiadau. Adnewyddir y Loteri ym mis Ionawr.

TRIP A CHINIO'R HENOED. Fe fwynhaodd 29 o'r henoed drip a chinio gwerth chweil dydd Sadwrn, 9 Rhagfyr. Mwynhawyd paned ym Metws y Coed ac yna Cinio Nadolig yng Ngwesty'r Sportsman, Porthmadog. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y diwrnod ac i bawb a gefnogodd y gweithgareddau drwy'r flwyddyn.

EISTEDDFOD BENTREF. Nos Fawrth, 5 Rhagfyr, bu nifer o oedolion a phlant yn Stiwdio Barcud. Mwynhawyd bod yn rhan o gynulleidfa y *Noson Lawen*, a ddangosir dros y Nadolig.

Gyda Tara Bethan yn cyflwyno Meinir Gwilym, Côr Glanaethwy, Band Jazz Gwynedd a Môn, Steffan Rhys, Cafi Wyn, Guto, Llŷr ac Osian, Ffion Haf, Ysgol Theatr Maldwyn, Ysgol Ddawns Gogledd Cymru ac eraill, cafwyd noson i'w chofio gan dalentau ifanc ein cenedl. Gwnaed elw at yr Eisteddfod Bentref a gynhelir nos Wener, 11 Mai 2007.

Atgoffir aelodau'r Pwyllgor y cynhelir pwyllgor nos Fercher, 17 Ionawr, 2007 am 7.00 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned - noson i ddewis testunau a llunio rhaglen. **YSGOL SUL BOSRA.** Mae'r plant wedi bod wrthi'n brysur yn llunio Cardiau Nadolig i'w gwerthu er budd Apêl Atgyweirio'r Capel. Gyda diolch i Bethan Jones, Cae Corniog, am ei gwaith caled, bu'r weithgaredd hon yn llwyddiannus dros ben a'r rhieni a'r teuluoedd wrth eu boddau hefo'u pasedi o 6 oedd ar werth.

Bnawn Sul, 17 Rhagfyr., cafwyd Sul y Teulu yng ngofal aelodau'r Ysgol Sul a Mr Merfyn Jones, Caernarfon. Bu'r plant yn olrhain yr hanes tu ôl i'r garol, Dawel Nos. Dymunir diolch i Tudur Huws Jones am gymryd rhan Franz Gruber a chyfeilio'r garol gyda'r gitâr, fel y canwyd hi gyntaf yn Elgwys San Niclaus yn Y Oberndorf, Awstra yn 1818. Roedd y plant a'r gynulleidfa wrth eu bodd yn ei chanu i gyfeiliant y gitâr ym Mosra. Gwnaed casgliad tuag at Apêl y Capel.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn 14 Ionawr, y Sul wedi

i'r ysgol ailddechrau.

PWYLLGOR NEUADDD. Enillwyr Clwb Cant Rhagfyr oedd: Mathew Philips, 7 Tai Arthur; Beth Green, Tan-y-coed; Gareth V. Jones, Pennaeth yr ysgol.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y Clwb Cant drwy 2006 a hyderir y cawn yr un gefnogaeth yn 2007. Adnewyddir yr aelodau yn Ionawr drwy Archeb Banc, £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Croesawn aelodau newydd gan fod hon yn weithgaredd i godi arian tuag at gostau rhedeg y Neuadd.

Noson Wasael. Er garwed y tywydd, bu'r noson yn llwyddiant mawr. Er mai gwan iawn oedd y gynulleidfa cafwyd naws y Nadolig ar ei orau gyda chanu gwefreiddiol gan blant yr ysgol, dan ofal Mrs Einir Humphreys a'r Pennaeth, Gareth Jones. Diolchir i chwi am roi o'ch amser a hynny ar adeg prysur.

Diolchir hefyd i'r Arwerthwr medrus, Eifion Harding, a sicrhodd elw sylweddol at y Neuadd. Diolch o galon hefyd i Marina am gyfeilio ac i aelodau'r pwyllgor a gyflwynodd ddarlenniadau am y Nadolig.

Diolchir i bawb a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau drwy 2006.

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus ar nos Lun, 15 Ionawr am 7.00 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned.

EGLWYS SANTES HELEN. 17 Rhagfyr, cafwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol am 3.30 y pnawn. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Ysgol Sul a diolchir iddynt am eu gwaith clodwiw. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar 14 Ionawr 2007.

25 Rhagfyr. Am 10.00 y bore gweinyddir y Cymun Bendigaidd gan y Parch Tegid Roberts. Croeso cynnes i bawb. Atgoffir aelodau'r Eglwys y bydd y Llyfrau Ariannol yn cau ar 31 Rhagfyr.

31 Rhagfyr. Cynhelir Gwasanaeth Boreol am 10.00. **LLONGYFARCHIADAU** mawr i Gwen a Gwilym Roberts, Weirglodd Goch, ar ddod yn hen nain a thaid - ganwyd mab bychan i Rachel.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Pen-blwydd hapus arbennig i Dafydd, Sycharth, fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 24 Ragfyr, oddi wrth Ann, Eurgain ac Ioan, Bedwyr a Lisa, Osian a Sara a sws fawr gan ei wŷr bach, Gwydion Rhys. Mwynha dy ymddeoliad.

Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Llawen. Bendithion i bawb ohonoch.

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cyngor Cymuned Llanrug

Dyma'r prif faterion ddaeth gerbron y Cyngor yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd. Cyflwynwyd adroddiadau ariannol manwl yn y ddau gyfarfod a diolchwyd i'r Cyngor. Goronwy Hughes gan y Cadeirydd y Cyngor. D. W. Thomas.

Adroddwyd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhwyll Moelyn Llanrug. Daeth nifer o blant i'r cyfarfod hwn a bydd y clerc yn anfon yr argymhellion ar gyfer y cae chwarae i'r Swyddog Adfywio Bro.

Darllenwyd llythyr gan bentrefwr oedd yn tynnu sylw at y manwellt sydd ar rai cerrig beddi yn dilyn torri'r gwair yn y fynwent. Eglurwyd mewn ymateb fod y gwair yn cael ei dorri'n rheolaidd er mwyn cadw'r fynwent yn dactylus ond na ellid talu am lanhau'r gwellt mân yn ogystal.

Mynegwyd pryder am fod dŵr yn croni yn sylfaen tŷ sy'n cael ei adeiladu wrth ymyl cae chwarae Nant y Glyn. Gan fod hyn yn beryglus iawn i blant, bydd y clerc yn cysylltu ag Adran Gwarchod y Cyhoedd ac yn anfon copi i'r Adran Gynllunio.

Mae angen gwneud ymholiadau ynglŷn â'r ddau blot adeiladu sydd ar ôl yn stâd Nant y Glyn. Mae'r safle yn flêr iawn fel ag y mae.

Cefnogwyd cais Seindorf Arian Llanrug i symud ymlaen i wneud cais am grant.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod y coed ar y ffordd i Gwm y Glo, heibio Castell Bryn Bras, yn tyfu dros y lôn erbyn hyn ac yn creu rhwystr i gerbydau uchel. Gwneir cais i'r perchnogion dorri'r coed mor fuan â phosib.

Daeth cais gan y Cyngor. Delyth Hughes, Cwm y Glo, i gael ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned. Y clerc i gysylltu â hi i ddiolch am ei gwaith a'i hymroddiad yn y gorffennol. Gwneir trefniadau gyda'r Swyddog Etholiadau i ethol aelod newydd dros ward Cwm y Glo.

Adroddwyd o gyfarfod Elusen Dr. Morris fod modd i ferched wneud cais yn y dyfodol ac nid bechgyn yn unig fel yn y gorffennol. Bydd yn rhaid i'r cais ddod gan rai o blwyfi Llanrug a Llanbeblig. Wrth ystyried y cais, bydd bod yn ddisgybl ysgol yn ffactor bwysig ynghyd ag incwn y rhieni.

Adroddwyd y bydd yr Awdurdod Heddlu yn trosglwyddo y cyfrifoldeb am ddadgrimalleiddio gofodaeth parcio i Gyngor Gwynedd. Cyflwynwyd hefyd daflenni gwybodaeth am Gynllun Datblygu Unedau Gwynedd.

Bydd llinellau melyn yn cael eu peintio at y ffordd yng Nghwm y Glo yn y dyfodol agos. Mynegwyd pryder fod rhai ceir yn cael eu rasio ar hyd y pentref o bryd i'w gilydd. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r problem.

Gwnaed cais am nawdd i *Eco'r Wyddfa* a bu i'r Cyngor. D. W. Thomas a Goronwy Hughes ddatgan diddordeb. Cytunwyd i gyfrannu £550 i'r papur bro.

Unwaith eto, mae'r wal gerrig

ochr bellaf i faes parcio'r fynwent wedi dechrau chwalu. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud rhwng y cyngor â pherchennog y cae i gael trwsio'r wal.

Mae'n bryder nad yw'r bin sbwriel yng nghae chwarae Nant y Glyn yn cael ei wagio'n rheolaidd. Bydd gohebiaeth eto'n cael ei anfon ynglŷn â hyn.

Mae pryder gan rhai o drigolion Corlan y Rhos fod pobl ifanc yn eu harddegau cynnar yn achosi trafferthion o gwmpas y stâd, yn arbennig ar nos Wener. Fe geisir cael yr heddlu i chwilio i mewn i hyn. Hefyd, bydd cais eto'n cael ei wneud i gael torri'r coed uchel sy'n tyfu wrth y wal yn y stâd hon.

Mae cais wedi ei wneud gan un o drigolion Cwawia i gael cysgodfan bws yno. Er yn cydymdeimlo â'r sefyllfa, teimlid nad oedd niferoedd y defnyddwyr yn cyfiawnhau cael cysgodfan yno. Ond mae llythyr wedi ei anfon i gefnogi'r cais – petae arian yn cael ei ryddhau gan y Cynulliad ar gyfer prosiectau o'r fath.

Mae pryder hefyd am y dŵr sy'n llifo i lawr y ffordd heibio Rhos Bryn Afon. Y clerc i wneud ymholiadau am hyn.

Derbyniwyd y dychweliad blynyddol wedi ei archwilio gan Archwilyr y Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio

Caniatawyd y canlynol gan Bwyllgor Cynllunio Arfon.

Adeiladu chwe tŷ a mynedfa newydd ar dir yng Nghwm y Glo; Arwydd (cais ôl weithredol) Hen Orsaf, Cwm y Glo Far;

Estyniad dau lawr ar Glanffrwd, Ffordd yr Orsaf, Llanrug;

Mynedfa newydd a rhodfa yn Hafod y Perthi, Pontrug;

Dymchwel adeilad allanol ac adeiladu tŷ (adnewyddu cais) Tyddyn Rhuddallt Llanrug

Ceisiadau newydd i'r Cyngor Cymuned – dim gwrthwynebiad i:

Estyniad i 16 Nant y Glyn, Llanrug;

Estyniad yn Hafan, Pontrug;

Ad leoli dau dy ar y tir ger Hafod y Glyd, Llanrug; Y Cyngor eisiau gwybod pam fod angen ail leoli'r

ddau dy hyn gan fod y cynllun gwreiddiol wedi ei dderbyn gan y pwyllgor Cynllunio eisoes;

Estyniad i'r tŷ /adeiladu modurdy, stabl ac estyniad i'r cwrtil – Bryn Crwn Ceunant;

Y cyngor yn methu gwneud penderfyniad oherwydd fod y cynlluniau yn anelwig. Mynegwyd

pryder hefyd ynglŷn â maint y garej a'i lleoliad ar y cosiad tir;

Estyniad i'r cwrtil yn Ship Cottage, Llanrug; gwrthwynebu ar y sail fod yr ymgeisydd eisoes wedi torri coed a chlririo gwrthoedd ar y safle.

Mae hefyd wedi gosod cwt pren anferth (*chalet*) ar y safle heb wneud cais cynllunio ac yn parhau heb

wneud cais. Mae hyn yn groes i'r hyn sy'n cael ei ddweud ar y cais amlinellol (na fydd torri coed) mae

hefyd yn mynd i osod 'to llechi' – ar y cwrtil tybed?

Mae'r Cyngor Cymuned eisiau i'r cais hwn gael ei roi gerbron Pwyllgor Cynllunio llawn ac nid

cael ei benderfynu gan unrhyw swyddog.

Bydd y Cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Rhagfyr 19eg yn y

Sefydliad Coffa Llanrug

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Dymuna Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Nadolig Llawen a phob bendith yn ystod y flwyddyn newydd i'r holl ardalwyr.

Cyfarfu'r Cyngor ar y 5 Rhagfyr a gweddiwyd i ddechrau'r cyfarfod gan Richard Llwyd Jones.

Ymddiswyddiad. Dywedodd y Clerc bod Dafydd Morris, Deiniolen, yn dymuno ymddiswyddo o fod yn Gynghorydd oherwydd amgylchiadau teuluol. Teimlai na allai wneud cyfiawnder â'r swydd a bod mynychu cyfarfodydd yn amhosibl.

Derbyniwyd ymddiswyddiad Dafydd gyda phryder o golli aelod da. Amlygwyd ei fod wedi cynrychioli ei etholwyr yn drwyadl ar hyd y blynyddoedd, ac roedd anghenion ei ardalwyr o bwys mawr iddo.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch iddo am ei gyfraniad sylweddol. Derbyniwyd hefyd enwebiad Dafydd Morris o Gynghorydd newydd i gymryd ei le, sef Mr Geraint Hughes, Coed Mawr, Deiniolen. Roedd Geraint wedi dangos diddordeb pan soniodd Dafydd wrtho. Penderfynwyd gwahodd Mr Geraint Hughes fel Cynghorydd.

Materion o gofnodion 7 Tachwedd

Dywedodd Mrs Larsen bod ffiniau'r ward wedi eu newid, mae Lôn Perthi bellach yn ward Deiniolen. Ni fydd

disgwyl i'r trigolion fynd i Ddeiniolen i bleidleisio ar ôl pleidleisio ym Mhenisa'rwaun ar hyd

eu hoes. Penderfynwyd gofyn i'r Swyddog Etholiadau newid y ffin yn

ôl.

Ystâd Cremlyn, Bethel. Cafwyd pris Gwynedd o £3,000 am olau yno.

Trafodwyd hyn a phenderfynwyd cynnwys goleuadau a chysgodfannau yn ogystal â llwybrau pan yn trefnu

blaenoriaethau ym mis Ionawr.

Cofeb Huw Lloyd Edwards. Derbyniwyd caniatâd perchennog

newydd Y Siop Gron, sef Mr Keith Ball, Bron y Waen, i osod y gofeb ar

yr adeilad. Penderfynwyd trefnu'r dadorchuddio tua Gŵyl Dewi.

Baw Cŵn. Ateb Gwynedd bod warden ychwanegol wedi ei benodi a

gobeithir ail-ddechrau'r gwaith o osod biniau lle mae angen.

Gofynnwyd am flaenoriaeth i Ryd Fadog, Deiniolen.

Adroddodd Huw P. Hughes ar sefyllfa'r *teithwyr* yn Chwael Fachell.

Cymorth Ariannol i Fudiadau

Dywedodd Hefin Williams bod galw ariannol mawr ar Neuadd Rhiwlas ar hyn o bryd ac awgrymwyd iddynt

wneud cais uniongyrchol i gronfa Cist Gwynedd.

Defnyddiwyd rhestr 2006 fel canllaw a phenderfynwyd fel a ganlyn:

Clwb Pêl-droed, Rhiwlas: ni dderbyniwyd mantolen ariannol; Pwyllgor Neuadd

Penisa'rwaun: £200; Neuadd Bentref Rhiwlas: £200; Neuadd Goffa Bethel: £200;

Llais Ogwan: £50; *Eco'r Wyddfa*: £200; Eisteddfod, Bethel: £250;

Eisteddfod Bentref Penisa'rwaun: £250; Eisteddfod, Deiniolen: £250;

Seindorf, Deiniolen: £200 Clwb Henoed Penisa'rwaun: £100;

Clwb Orwig, Dinorwig: £100; Clwb Bro Bethel: £100;

Clwb Snwcer, Deiniolen: £100;

Ceisiadau ychwanegol at restr 2006

Clwb Snwcer Bethel: £100;

Clwb Pêl-droed Ieuenctid

Bethel: £100

Ti a Fi a Ysgol Feithrin Rhiwlas:

£200, oherwydd mai cychwyn maent.

Cymdeithas Lenyddol Bethel:

£100

Cyfanswm o £2,700.

Gohebiaethau a materion eraill

Adroddwyd yn ystod y mis bod mainc mileniwm Penisa'rwaun wedi

ei malu a'i llusgo at Y Siop Gron. Cadwodd Phyllis Ellis hi yng ngardd

Mrs Larsen, dros dro, er diogelwch.

Penderfynwyd gofyn i Mr Bryn Hughes a ellid ei thrwsio ac i wneud

y safle ger Llys y Gwynt yn ddiogel. Cafodd y gysgodfan bws hefyd ei

malu. Dywedwyd wrth yr heddlu am hyn a bod ieuenctid yn mynychu cae

chwarae Rhyd Fadog, Deiniolen gyda'r nos. Ar nos Sadwrn, y 18ed,

dim ond dau blismon oedd ar ddyletswydd dros Benygroes a'r holl

ardal at Llanberis.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd: Ymestyn Stablau: llain o dir Stablau, Llanrug.

Un tŷ: Yr Hen Ysgol, Penisa'rwaun. Adeiladu tŷ – Weirglodd Goch, Penisa'rwaun.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wnedd: Codi tŷ fforddiadawy: Rhiw Goch Cottage, Clwt y Bont.

Ffenestri to: Y Derwen, Ffordd Cae Metta, Llanrug.

Gwarchodfeydd anifeiliaid: tir ger Ael y Garth, Y Felinheili.

Estyniad Gwydr – Tŷ Newydd, Bethel.

Estyniad un llawr a modurdy: Glandwr, Cwawia, Llanrug.

Estyniad, sied ardd a boilerdy: Bwlch Bach, Deiniolen.

Coed Bolyn Mawr. Derbyniwyd atebion:

Y Prif Weithredwr wedi cyfeirio'r mater i Mr Aled Davies, Pennaeth

Cynllunio. Cadeirydd Cyngor Gwynedd yn dweud yr un peth ond

hefyd yn cysylltu â Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Mr Tim

Hughes.

Mr Aled Davies yn cyfiawnhau llythyr Mr Gareth Jones, a

ddarllenwyd yng nghyfarfod Tachwedd.

Bwriedir gosod monitr sŵn ar dy yn yr ardal. Rhoddwyd cyfeiriad a

chaniatâd y perchennog i'r Swyddog gan Huw P. Hughes beth amser yn ôl

ond does dim wedi digwydd hyd yn hyn. Cyfeiriodd Len Jones at achos

cyffelyb rai blynyddoedd yn ôl, cyn gosod y monitr rhybyddiwyd y

troseddwr!

Gwaith Marchlyn Mawr: dywedodd Len Jones bod adroddiad First

Hydro yn awgrymu na chafwyd sylwadau gan Gyngor

Llanddeiniolen. Addawodd y Clerc ddanfoni copi o'r cofnod i Swyddog

Cynllunio Gwynedd.

Soniodd Phyllis Ellis am y geifr gwyllt a laddwyd ar y mynyddoedd

yn ddiweddar ac na fu cylfe i fynegi barn na hyd yn oed rhybydd i'r

Cyngor. Penderfynwyd danfon cwyn at Mr Barry Davies, Swyddog Parciau

Gwynedd.

Fforwm Padarn: Dywedodd Philip Jones nad yw'n bosibl iddo fynychu'r

cyfarfodydd gan eu bod wedi newid eu hamser.

Gwirfoddolodd Elspeth Mitcheson gynrychioli'r Cyngor yn ei le.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2il o Ionawr 2007.

Siop Modurdy Beran ar ei Newydd Wedd

Ers blynyddoedd bellach mae'r nifer ohonom sy'n galw draw i Fodurdy gwerthu disyl a phetrol, a'r Siop, ym Meran yn gwybod i sicrwydd y cawn yno wenau parod, llond gwlad o groeso a sgysiau tu hwnt o ddifyr. Mae'r perchnogion, sef Terry a Jackie, i'w canmol yn fawr am eu dycnwch a'u hymroddiad gyda'r gwaith caled, di-ddiolch yn aml, o rygnu boddau cwsmeriaid o bell ac agos. Rhyw bethau bychain fel 'Mi ofala' i y bydd o yma, neu 'Paid â phoeni da chdi, mi ga' i o i ti.' Ac y mae'r staff sy'n gweithio yno yr un mor barod eu cymwynasau, sy'n ei gwneud hi'n bleser o'r mwyaf cael mynychu'r siop, a phrynu disyl neu betrol yno.

Fel Cymry Cymraeg bu i Terry a Jackie fentro, a chael graen da ar yr adran gwerthu nwyddau. Nid pob siop sydd hefo blodau yn tyfu ar glytiau o dir wrth ymyl, a'r blodau yn cael eu newid fel y llifa'r tymhorau heibio. Mae Beran ar ei orau pob wythnos o'r flwyddyn gyda'i lawntiau trefnus a sbloets o liw. Gofalwyd hyd yn oed i gael hwylusfa, hefo adnoddau ar gyfer pobl nad ydynt yn abl i gerdded ymhell, neu mewn cadair olwyn.

Gwenu mewn diolchgarwch hefyd a wna llawer un ohonom sy'n prynu'r Loteri - onid yw pobol Beran wedi gofalu fod y Gymraeg ar y tocyn!

Ar ben hyn i gyd pa fodurdy

arall sydd hefo murluniau lliwgar a dengar wedi eu gosod ar bob talcen a'r rheiny yn olrhain hanes cylch *Eco'r Wyddfa*. Mae digwyddiadau ddod a heddiw arnynt mewn gwaith celfydd arlunwraig amryddawn o Dregarth.


Mae yma hefyd ffenestri sy'n orlawn o hysbysebion i dynnu sylw'r cyhoedd at nosweithiau cymdeithasol, mentrau codi arian a digwyddiadau eraill yn y dalgylch. Ceir yno'n wastad amrywiaeth o gylchgronnau a newyddiaduron Cymraeg, fel *Y Cymro* a *Golwg*, a gofelir yn ogystal bod *Eco'r Wyddfa*, ynghyd â phapurau bröydd eraill, fel *Llais Ogwan* a *Goriad* ar werth.

Nid oes ond diolch i Jackie a Terry a'r holl staff am greu corneli cynnes yn ein calonnau tuag atynt. Erbyn hyn mae'r siop ar ei newydd wedd hefo'r estyniad newydd wedi ei gwblhau. Mae mwy o le nac erioed yno, gyda sillfoedd sy'n agos atoch, hynny yw i'r rhai ohonom sy'n siopio o gadair olwyn.


Bydd, Terry a Jackie - mi fydd hi'n werth pob tamaid galw draw atoch, gan wybod bod croeso Cymreig a hwyl ac afiaith yn ein digwyl.

Llongyfarchiadau calonnog i chwi. Diolch am y weledigaeth!

Ar ran *Eco'r Wyddfa*, dymunir yn dda i'r Modurdy gwerthu petrol a disyl, a hir oes i'r siop ym Meran.



Cyfle i Ennill CD



Mae cyfle i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ennill copi o CD newydd Elwyn Wilson Jones:

Caneuon Ysbrydol / Spirituals
(Aran 510)

Detholiad newydd o ganeuon gospel yn llawn hiwmor, eironi a gostyngeiddrwydd, rhai yn enwog ac eiconig, ac eraill sy'n llai cyfarwydd ond yr un mor bwerus.

Mae'r cysylltiadau ag ardal yr *Eco'r gryf*. Adnabyddir Elwyn Wilson Jones trwy Gymru gyfan fel aelod o Hogia'r Wyddfa. Lluniwyd y trefniadau gan ei gyfaill, Dafydd Bullock, y cyfansoddwr adnabyddus o Lanberis sydd wedi recordio, perfformio a darlledu yn rhyngwladol.

Yr enw cyntaf allan o'r het fydd yn ennill y CD. Y cyfan y mae'n rhaid ichi wneud yw anfon eich enw, cyfeiriad a rhif cyswllt at: Y Tim Golygyddol, Penarth, Ffordd yr Orsaf, Llanrug LL55 4BA, a dweud pan yr hoffech dderbyn copi.

Cyhoeddir enw'r enillydd yn rhifyn Chwefror. Rhaid i'ch cais gyrraedd erbyn 20 Ionawr, 2007.

Cefnogwch ein Hysbysebwr

LLONGYFARCHIADAU

mawr i Margaret C. Griffiths am ennill y cryno ddisg: *Llythyrau Ellis Williams*. Yr ateb oedd Y Gors, Llanddeiniolen.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

COFION. Wrth i'r Nadolig agosáu yr wyf yn sicr ein bod yn anfon ein cofion Nadolig at Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, a Mrs Laura Williams, Tan y Fron, y ddwy ar hyn o bryd yng nghartref Plas Garnedd, Llanberis. Hefyd anfonwn gofion at bawb yn yr ardal sydd yn cwyno.

Diolch i chi am bob cymorth a gefais yn ystod y flwyddyn hefo'r *Eco*. Dymunaf Nadolig Llawn i bawb a Blwyddyn newydd Dda. Hwyl yr wyl.

CYSGOD Y CRYMAN

Hanner can mlynedd ar ôl ei chyhoeddi'n wreiddiol mae un o nofelau mwyaf adnabyddus Cymru ar fin ei chyflwyno ar y llwyfan am y tro cyntaf erioed.

Cysgod y Cryman, gan y diweddar Islwyn Ffowc Elis yw cynhyrchiad nesaf Theatr Genedlaethol Cymru. Mae'r addasiad ar gyfer y llwyfan gan y dramodydd a'r nofelydd, Siôn Eirian.

'Go brin y bu cymaint o ddarllen ar nofel Gymraeg erioed ag a fu ar *Cysgod y Cryman*,' meddai Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru, Cefin Roberts. 'Mae cenedlaethau o ddisgyblion ysgol wedi astudio'r nofel ar gyfer eu harholiadau, a datblygodd hanes Harri Vaughan a gweddill teulu Lleifior yn rhan o'n chwedloniaeth,' ychwanegodd.

Perfformir *Cysgod y Cryman* yn Theatr Gwynedd, Bangor, ar nosweithiau Iau, Gwener a Sadwrn, Chwefror 1-3, 2007.

Bydd y perfformiadau'n dechrau am 7.30 o'r gloch, a gan y rhagwelir galw mawr am docynnau anogir y gynulleidfa i sicrhau sedd cyn gynted ag y bo modd.

Ymysg y cast fydd actorion

amlwg fel Dyfan Roberts ac Owain Garmon a chynhyrchir *Cysgod y Cryman*, gan Cefin Roberts.

'Er bod *Cysgod y Cryman*, yn nofel ei chyfnod ac yn ymdrin ag egwyddorion comiwnyddiaeth, mae'n anhygoel bod ei hapêl wedi goroesi yn bell ar ôl i'r llen haearn ddiflannu,' ychwanegodd. 'Rwy'n edrych ymlaen i weld ymateb y gynulleidfa i'n hymdriniaeth o gymeriadau y mae nhw mor gyfarwydd â nhw,' meddai.

Er i *Cysgod y Cryman* a'r nofel a'i dilynodd, *Yn Ôl i Leifior*, gael eu haddasu ddwywaith o'r blaen ar gyfer y teledu, dyma'r tro cyntaf i'r naill na'r llall gael eu trosglwyddo i'r llwyfan.

Mae addasiad Siôn Eirian wedi'i selio ar addasiad Saesneg ganddo rai blynyddoedd yn ôl ar gyfer cyfres 'The Classic Play', ar BBC Radio 4, ac a wnaeth gyda chydweithrediad llawn Islwyn Ffowc Elis.

'Mae'r addasiad yn cadw'n glos at y stori wreiddiol,' meddai Cefin Roberts. 'Wedi'r cwbl mae'n stori dda,' ychwanegodd.

Am ragor o fanylion cysylltwch ag
UTGORN ar 01766 514505.

Haf yn Nofio Milltir i Apêl Ysgol Pendalar

Cafwyd noson arbennig iawn yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ar nos Fawrth, 5 Rhagfyr. Daeth teulu a ffrindiau, cyn-ddisgyblion a chyn-athrawon ynghyd i gefnogi Haf a'i hymdrech i nofio 60 hyd y pwll. Roedd yno gefnogaeth gref o Fro'r Eco.

Ar ôl ymarferion cyson o

bedair gwaith yr wythnos ers diwedd Medi, fe lwyddodd Haf i nofio 4 yn fwy na'r nod, er mwyn ei gwneud yn filltir!

Llongyfarchiadau mawr iti, Haf, a gobeithio y bydd yr arian yn llifo i mewn i'r Apêl - dy brosiect olaf o godi arian at achosion da.



Haf gyda ffrindiau ac athrawon Pendalar ar ddiwedd ei marathon nofio.

Safle Magu i Ddolffiniaith Prin oddi ar Arfordir Pen Llŷn

Mae golygfa brin iawn i'w gweld nid nepell o Ynys Enlli ym Mhen Llŷn, sef criw o ddolffiniaid, gan gynnwys rhai bach. Roedd gweithwyr maes y *Whale and Dolphin Conservation Society* (WDCS) wrth eu bodd pan welsant grŵp yn cynnwys pump o famau a phump o ddolffiniaid bach wrth iddynt gynnal eu gwaith ymchwil blynyddol ar yr ynys. Mae'r olygfa anarferol hon yn dangos pwysigrwydd yr ardal i ddolffiniaid Risso o safbwynt magu a meithrin eu rhai bach.

Yn ôl Simon Keith, prif weithiwr maes y WDCS:

'Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar Ynys Enlli yn ein helpu i ddeall dosbarthiad, niferoedd ac ymddygiad y dolffiniaid Risso a'r llamhidyddion a welir o amgylch yr ynys - a gellir defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i lunio cynlluniau cadwraeth. Dyma'r tro cyntaf inni weld cymaint o ddolffiniaid bach o fewn yr un grŵp - rhywbeth cyffrous iawn sy'n dangos pa mor bwysig yw hi i barhau a'r gwaith ymchwil.'

Caiff y gwaith ymchwil ei ariannu gan Gronfa Her y Rhywogaethau o eiddo'r Cyngor Cefn Gwlad. Mae'r gronfa'n rhoi arian i unigolion a grwpiau gwirfoddol fel y gallant gynnal prosiectau sy'n gwarchod rhywogaethau â blaenoriaethau, a rhai sy'n dirywio. Yn wir, mae rhai o'r rhywogaethau hyn ar fin diflannu am byth. Mae'r WDCS

yn hynod falch fod y gwaith maes ar Ynys Enlli wedi elwa ar grant o'r fath.

Meddai Mandy McMath, Ecolegydd Mamaliaid Morol y Cyngor Cefn Gwlad:

'Ychydig iawn a wyddom am ddolffiniaid Risso. Ynys Enlli yw un o'r ychydig lefydd ar hyd arfordir y DU lle gellir gweld dolffiniaid Risso o'r tir. Rydw i wth fy modd fod y prosiect yma'n dwyn ffrwyth a'i fod yn casglu gwybodaeth werthfawr a all ein helpu i reoli amgylchedd y môr mewn ffordd a fydd yn diogelu dolffiniaid Risso yn y tymor hir.'

Wrth barhau i gynnal y gwaith ymchwil hwn, nod gweithwyr maes y WDCS gydag amser yw deall sut y mae'r cynefinoedd yn cael eu defnyddio. Eisoes, mae'r ffaith fod y rhywogaeth hon i'w gweld yn yr ardal, eu hymddygiad a'r ffaith fod ganddynt rai bach, yn awgrymu'n gryf fod y dyfroedd hyn yn safleoedd magu a bwydo pwysig.

Gllir cael mwy o wybodaeth am y dolffiniaid a welir yn nyfroedd Cymru mewn llyfryn rhad ac am ddim gan y Cyngor Cefn Gwlad, sef *Dolffiniaid, llamhidyddion a morfilod yn nyfroedd Cymru*. I gael copi, ffoniwch 0845 13062229. Os ydych angen gwybodaeth gyffredinol am ddolffiniaid, morfilod a llamhidyddion, a'r bygythiadau sy'n eu hwynebu, edrychwch ar www.wdcs.org

Fedrwch Chi Gyrradd Hwnna i Fi, Plîs?

Nac ydw, dydw i ddim wedi cael fy mreintio â thaladra go lew, ond mewn difri onid ydi'r silffoedd 'ma yn yr archfarchnadoedd yn uchel! Dwi wedi gorfod gofyn ganwaith i rywun talach na fi (dyn neu ddynes) i estyn rhywbeth o'r silff uchaf. Mae'n siŵr bod yna rai ohonoch chi'r darllenwyr yn cydymdeimlo â mi. Caf ymateb ffafriol bob tro, ar wahân i un hen wag yn gofyn a oeddwn i isio hwb i fynd ganddo

fo! Wel wir, am hyfdra!

Ewch i'r sinema neu'r theatr a dyna'r person talaf dan haul yn meiddio ista reit o'ch blaen ar y munud olaf - felly does yr un sêr arall ar gâl i symud iddi.

Cofiwch rŵan, chi'n bobl sy'n dalach na fi, rhowch ystyriaeth i'r bychain ac eistedd yng nghefn theatr neu sinema, ond cyn imi gwyno gormod mae'n dda'ch cael chi yn yr archfarchnad 'na!

Em.H.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd gwasanaeth o garolau a llihoedd yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 4 Rhagfyr. Darllenwyd y llihoedd gan yr aelodau. Dr W. Munroe oedd y panydd a darllenodd rai o'r gweddïau a rhoddodd y fendith. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd mins peis a phaned. Trafodwyd materion a godwyd ym mhwyllgor y Ddeoniaeth a gynhaliwyd ym Mangor ar 28 Tachwedd gan Dorothy.

Enillwyd y raffls gan Gwyneth, Gwen, Meira a Hilda. Terfynwyd y noson trwy adrodd y Gras. CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gwilym,

Margaret, Carys, Terry a Keith yn eu profedigaeth frawychus o sydyn o golli mam a nain annwyl. DIOLCH. Dymunwn ddiolch yn ddifffuant i'r ffyddloniaid sydd wedi gofalu am anfon newyddion i'r Eco trwy gydol y flwyddyn.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref ac i'r rhai sydd mewn Cartrefi Henoed neu yn yr Ysbyty. CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i'r Parch a Mrs Gwynfor Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

UN FUNUD FACH

Y DOLIG

Mae'n bryd i Mair ddod o'r atig: hi a Joseff a gweddill pobol Playmobil y Nadolig. Ac yntau'n edrych ymlaen i'w gweld nhw unwaith eto, cafodd Aled syniad da. Ers i griw Playmobil Bethlehem fod acw'r llynedd mae o wedi cael castell Playmobil, a heddiw fe benderfynodd y caiff hwnnw fod yn balas Herod dros yr Wyl. Golwg digon tlawd a thila fydd ar yr hen stabal gardfwrdd wrth ymyl palas newydd, crand Herod a'i orsedd a'i filwyr arfog. Ond felly'n union oedd hi y Nadolig cyntaf hefyd wrth reswm.

Does ond gobeithio na fydd palas Herod yn nychymyg plentyn yn cael mwy na'i siâr o sylw gan ddod yn ormod rhan o'r stori. Ar ymylon y darlun yr oedd Herod, er gwaetha'i awdurdod a'i rym. Ac yno mae ei le, â baban Bethlehem yn frenin y ddaear a'r nefoedd. Methodd Herod â diffodd y goleuni a ddaeth i'r byd ym mherson Iesu, ac mae'r goleuni hwnnw'n parhau i lewyrchu heddiw yn nhywyllwch ein byd. Mae Iesu Grist yn dal yn obaith i bobl yn wyneb yr holl dristwch a'r dioddefaint sy'n eu blino. Mae'n dal yn wrthrych addoliad a chariad ei ddilynwyr drwy'r byd. Ond darfu am Herod ers dwy fil o flynyddoedd.

Mor bwysig yw gofalu nad yw pethau'r ymylon yn cael y lle canol, yn nathliadau'r Nadolig fel yn ein holl fywyd. Iesu Grist sy'n haeddu'r lle canolog am iddo'n caru a dod i'n byd i farw trosom. Ond mor hawdd yw ildio'r lle hwnnw yn ein bywydau, ar y Nadolig neu unrhyw amser, i bethau eraill.

Mae Crist yn y canol pan yw gweddi a'r Beibl yn y canol; pan yw'r Groes a'r Bedd Gwag yn y canol; pan yw'r Efengyl a'r Eglwys yn y canol. Yn ei ras, mae'r Duw Mawr yn delio â'i blant er mwyn sicrhau mai'r pethau hyn sy'n mynd â'u bryd. Dyma'r pethau sy'n ein galluogi i roi i'r Iesu ei briod le. Mae yna bethau eraill sydd ar ymylon y bywyd Cristnogol, a rhan o her y Crist i ni yw ein bod yn cadw'r pethau hynny yno.

Os cawn ni hamdden yn ystod yr Wyl ac ar drothwy'r flyyddyn newydd, wnawn ni ddim gwell na threulio munud neu ddwy yn ystyried beth sy'n ganolog, a beth sy'n ymylol, i'r bywyd Cristnogol sydd gennym os ydym wedi rhoi ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.
JOHN PRITCHARD

Rygarug

Dymuna aelodau a thiworiaid
Rygarug Flwyddyn Newydd
Dda i ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa!

Newyddion o Rygarug

Mae'r cast i'n sioe flynyddol 'Gwyrdd' wedi eu dewis! Rhaid aros tan Eco mis nesaf i gael gweld pwy ydi pwy! Cofiwch adael y 4ydd a 5ed o Ebrill yn rhydd yn eich dyddiaduron!!

Mi fyddwn ni'n cael seibiant dros y Nadolig ar ôl gweithio mor galed dros dymor yr Hydref!

Cyfweliad gydag Aled Cyfansoddwr ein Sioe Flynyddol, 'Gwyrdd'

Gaynor Ellis Williams ysgrifennodd y geiriau i'r caneuon yn y sioe a chi ysgrifennodd y gerddoriaeth. Oedd hi'n dasg anodd ysgrifennu cerddoriaeth i eiriau rhywun arall a pham?

Mae hi'n gallu bod yn anodd ysgrifennu cerddoriaeth i eiriau rhywun arall ar adegau. Mae'r cyfan yn dibynnu ar pa mor dda yw'r geiriau yn y lle cyntaf! Mae Rygarug wedi bod yn ffodus iawn i gael Gaynor Ellis Williams fel sgriptwraig. Roedd cyfansoddi'r gerddoriaeth i eiriau arbennig Gaynor yn dasg bleserus. A dweud y gwir, roeddwn yn chwerthin yn aml wrth eu darllen!

Sut cawsoch chi eich ysbrydoli i ysgrifennu ysgrifennu'r gerddoriaeth?

Yn naturiol, daeth llawer o'r ysbrydoliaeth o eiriau'r caneuon. Ceisiais ddal y naws angenrheidiol ar gyfer y caneuon gwahanol. Roedd gan Gaynor ei hun syniadau am gerddoriaeth y caneuon, felly roedd hynny o help mawr. Hefyd, rwy'n hoff o wrando ar gerddoriaeth o bob math yn ogystal â'i chwarae - roc, ffync, pop, gospel, clasurol, modern, rhamantaidd ac yn bennaf, jazz. Rwy'n credu bod olion rhai o'r arddulliau hyn yn amlwg ar lawer o'r gerddoriaeth.

Pa mor anodd ydi cyfansoddi? Cwestiwn da! Mae'r dasg o gyfansoddi yn amrywio. Gan mai cerddoriaeth yw fy mhrif ddiddordeb, mae eistedd wrth piano am oriau yn chwarae â syniadau gwahanol yn bleserus iawn. Weithiau bydd patrwm o gordiau neu alaw yn dod i'm pen yn syth a bydd darn gorffenedig arall o'm blaen mewn chwinciad! Ar y llaw arall, byddaf yn eistedd i lawr i gyfansoddi rhywbeth a fydd dim byd o gwbl yn digwydd!

Pryd gychwynnoch chi?

Dwi wedi bod yn cyfansoddi ers pan oeddwn i'n ifanc iawn. Roeddwn i wrth fy modd mynd i dŷ Nain pan oeddwn i'n hogyn bach achos mi oedd ganddi piano yn y tŷ, ac organ gan Taid hefyd! Doedd GENNYM ni ddim byd adref! Ond, un diwrnod, cawsom piano yn y tŷ ac roeddwn i ar ben fy nigon. Ers hynny, dwi wedi cyfansoddi sawl darn o gerddoriaeth a sawl cân. Ond mae'n bleser gennyf ddweud mai 'Gwyrdd' fydd y sioe gyfan gyntaf i mi ei hysgrifennu!

HELEDD ROBERTS
a CARA MITCHELL

O SIAMBAR SELWYN

Neges y Garol

Glywi di leisiau'r engyl
Yn canu'r garol dlos,
A weli di'r bugeiliaid
Yn gwyllo'u praid liw nos?
A weli di y seren
Yn hongian yn yr wybren
A'r eira ar y rhos?

A glywi di y garol
O wyllt bellafoedd byd,
Yn seinio mawl i'r baban
Sy'n gorwedd yn ei grud?
A weli di y doethion
Yn gosod eu hanrhegion
Wrth breseb Brenin Byd?

Hed neges hen garolau
At blant sy'n dioddef cam,
A chlywir ar yr awel
Weddiau tad a mam;
O arswyd swm y bomiau
Daw swyn yr hen storïau
Am faban bach di-nam.

Mor wyn yw'r eira heno
Mor bur ar fryn a dôl,
A baban Mair sy'n cysgu
Yn dawel yn ei chôl;
O gynnwrf swm y gynnuau
Daw neges hen garolau
Heno i ninnau'n ôl.

SELWYN GRIFFITH

Y gorau o 2006

gan rai o blant
Ysgol Gynradd Llanrug

Yn y flwyddyn 2006 y pethau gorau a ddigwyddodd i mi oedd mynd ar y rhaglen *Retro* a chael cyfarfod Tara Bethan, Alex Jones ac Antony! Roeddwn hefyd yn hoffi fy mhen-blwydd oherwydd y parti a'r presantau da a gefais. Hoffais y trip i Glan Llyn hefyd.

BETHAN ROBERTS, bl. 5

Y flwyddyn orau i mi oedd 2006 oherwydd gwelais fy mrawd bach yn tyfu i fyny. Yn y flwyddyn yma rydw i yn hoffi gweld y rhaglen *High School Musical*, a'r peth gorau sydd wedi digwydd i mi yw gweld fy mrawd bach yn dechrau siarad.

FFION MAI THOMAS, BL. 5

Mi roeddwn yn hoffi 2006 oherwydd mi ges i ffrindiau newydd ac mi ges i fynd i Glan Llyn am y tro cyntaf a chael fy nglychu yn socian yno. Mi rydw i yn hoffi bod ym mlwyddyn 5, mae'n lot gwahanol na blwyddyn 4. Roedd 2006 hefyd oherwydd yr D.C. Games gyntaf a'r *High School Musical*, y ffilm.

SIONED ELIN GRIFFITHS, BL. 5

Yn 2006 roeddwn yn hoffi fy mhen-blwydd oherwydd ges fynd i Legoland, ac roedd y ffilm *Happy Feet* allan yn y sinema. Y peth gorau oedd gweld Lili, fy chwaer yn cerdded am y tro cyntaf erioed!

MARED, BL. 5,

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Goleuni

A Duw a gafodd freuddwyd, -
'Mi a greaf blaned
o ddŵr a than,
ac fe'i gosodaf yn y gwagle
i droi
ac i droi
am filynau o flynyddoedd.

Hefyd mi greaf anifail o ddyn
a'i osod ar degan o fyd,
ac fe'i temtiaf
i ddinistrio fy nghreadigaeth.'

A phan ferwodd y môr
Yng nghynnwrf y dechreuad,
fe grewyd y gamp.
Rhuodd terfysg yng nghrombil
daear

gan falurio'r crystyn brau
a'i hyrddio fel gwaddod drwy
eigion dyfroedd

i ymgaedu
yn haen
ar haen.

A bu tywyllwch.

Ond Duw a wenodd,
- a bu goleuni.

Ac Efe a gymerodd y goleuni
a'i fowldio yn ei ddwylo
i wneud yr haul,
ac fe'i gosododd yn y nef
i g'nesu'r blaned,

ac i oleuo'r ffurfafen.
Yna fe daflodd y gweddill
gwreichion
fel conffeti i'r enrychiion,
a chafwyd lloer a sêr
i oleuo'r nos.

Ac un noson,
ddwy fil o flynyddoedd yn ôl,
ymddangosodd seren mwy
disglair na'r cyffredin, -
fe'i dilynwyd gan ddoethion,
ymddangosodd angylion,
ac fe swatiodd y bugeiliaid mewn
ofn

wrth wyllo eu praid.

A'r noson honno,
yn nyddiau Herod frenin,
- daeth GOLEUNI I'N BYD.

SELWYN GRIFFITH

Grŵp Gogledd Cymru i Faslane
d/o Tŷ Cerrig
Llangoed
Ynys Môn

Annwyl Olygydd,
Yn aml iawn y dyddiau hyn
clywir am y posibilrwydd o gau
ysbytai lleol neu gau a chyfuno
ysgolion cynradd. Rhyfeddod
felly yw clywed bod y
Llywodraeth yn ystyried gwario
hyd at £75 Biliwn i ddarparu
taflegrau niwclear newydd yn
lle system Trident. Anogaf eich
darllenwyr i gysylltu â'u
haelodau seneddol ac aelodau
cynulliad i fynegi eu
hanfodlonrwydd gyda'r sefyllfa
ffôl yma.

Os ydynt yn teimlo eu bod
angen gwneud mwy a bod yn
rhan o'r ymgyrch yn erbyn
arfau niwclear yna gallant
gysylltu â mi.
Gyda llawer o ddiolch
Gwyn Edwards

(Parhad o dudalen 9)

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Mrs Megan Williams, Stad Tref Eilian ar enedigfaeth gor-ŵyr bach. Ganwyd Owain Ynyr i'w hŵyr, Dyfan, a'i briod, Siwan.

Llongyfarchiadau mawr i Alwyn a Valmai Williams, Garreg Fawr, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Non Wyn, i Iona ac Emlyn.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Eryri ac o 12 Bryn Golau, bu farw John Delwyn Lewis. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Sylwen, ac â Sharon, David a Simon a'u teuluoedd, ac â Doris a Bill, ei chwaer a'i frawd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd ac Anna a Jammie yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Rosemary Bracegirdle, Stad Bro Waun.

Yng Nghartref Bryn Cwybr, Rhuddlan, bu farw Mr John Cotton, cyn-bostfeistr y pentref. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Clive, Alan a Robert yn eu profedigaeth o golli eu tad.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Edith Ellis, Min y Nant, a Mr Gwilym Madog Jones, Bro Waun, yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Dilys, a oedd yn byw ym Methesda.

Daeth profedigaeth o golli brawd i ran Mrs Lowri Dunn, Trigfa. Cydymdeimlwn yn fawr â hi yn ei cholled.

DYMUNIADAU GŴYL Y NADOLIG. Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i ddarlennwyr yr *Eco* yn yr ardal. Anfonwn ein cofion at bob un sydd yn gaeth i'w cartref ac mewn

cartef preswyl.

NEGES BWYSIG AC APÊL. Ni ddarlennwyr yr *Eco* ym mhentref y Waun fydd yn plygu'r rhifyn nesaf o'r *Eco*. **Eleni yn Neuadd Ysgol y Waun y byddwn yn gwneud y gwaith, NID yn Ffestri y Capel.** Taer erfynwn am gymorth i blygu er mwyn inni allu ei gwblhau erbyn 7.30 o'r gloch er mwyn i ofalwraig yr ysgol gael cloi'r adeilad a'r giât. Diolch.

Hoffwn ddiolch i Mrs Gwenan Dafydd am gael defnyddio'r ysgol gan fod festri'r capel yn cael ei hatgwyeirio a'i haddasu.

RHODDION

£20: Er cof am fam a nain annwyl, Mrs Mary Ellen Pritchard, Namor, Llanberis.

£10: Di-enw; Tomos John Roberts, 83 Maes Padarn, Llanberis; Brenda Parry, Plas Eilian, Llanberis

£5: Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis; Mrs Jane Jones, Peris View, Llanberis; Dilys Baylis, Llanberis; Eirian Jones, 11 Stryd Fawr, Deiniolen.



TÎM HYSBYSEBION NEWYDD

O rifyn nesaf *Eco*'r Wyddfa (sef *Eco* rhif 341, Chwefror 2007), bydd tîm newydd yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gasglu hysbysebion *Eco*'r Wyddfa.

Y Trefnydd Hysbysebion newydd yw Eifion Roberts Sŵn y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis, LL55 4SY, ffôn 01286 870740, e-bost eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

Caiff ei gynorthwyo gan Dilys Perez a Nia Glyn, Hafod, Tanycae, Bethel, ffôn 01248 670728, e-bost ninz@tesco.net

Bydd Eifion yn canolbwyntio ar ardaloedd Nant Peris, Llanberis, Cwm y Glo, Brynrefail, Llanrug, Deiniolen a Dinorwig. Cyn ei ymddeoliad roedd yn rhedeg busnes Becws Eryri yn Llanberis gyda'i wraig, Gwyneth, sy'n ohebydd yr *Eco* yn y pentref.

Mam a merch yw Dilys Perez a Nia Glyn. Bydd y ddwy'n canolbwyntio ar ardaloedd Bethel, Waunfawr a Chaeathro. Ymddeolodd Dilys fel athrawes hanes yn Ysgol Dyffryn Nantlle ac mae Nia'n treulio cyfnod rhwng ysgol a choleg, gan obeithio dilyn cwrs milfeddygaeth.

Bu'r trefnydd hysbysebion blaenorol, John Roberts o Lanrug, yn gwneud y gwaith ers sefydlu'r papur yn 1976.

Meddai ar achlysur ei 'ymddeoliad',

'Gan fod *Eco*'r Wyddfa'n gwerthu dros 2000 o gopïau bob mis, mae'n lle ardderchog i fusnesau lleol gyrraedd cwsmeriaid ar garreg eu drws.' Ychwanegodd, 'Mae incwm yr hysbysebion yn galluogi'r papur i gyhoeddi llawer mwy o dudalennau newyddion, lluniau ac erthyglau ar gyfer ein darlennwyr na phe baem yn dibynnu ar bres gwerthiant y papur yn unig. Dymunaf ddiolch o galon i Eifion, Dilys a Nia am wirfoddoli i gymryd drosodd y gwaith. Ac mae fy niolch yn anferthol i'r llu o hysbysebwr a gefnogodd y papur dros y blynnyddoedd. Fel un o sefydlwyr *Eco*'r Wyddfa ni fyddaf yn anghofio am y papur yn gyfan gwbl! Rwy'n gobeithio ysgrifennu ambell erthygl am fusnesau'r fro – y tro hwn heb bwysau *deadlines*!'

CYNGERDD NADOLIG YN Y MYNYDD GWEFRU

Er i'r tywydd garw gadw rhai ardalwyr draw, gwnaed y casgliad anrhydeddus o £169.35 tuag at Apêl yr Ambiwylans Awyr yn y cyngerdd gan Gôr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen brynhawn Sul, 10 Rhagfyr.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Noson cyn y Nadolig
Noson ola'r flwyddyn } Gwasanaeth Sul arferol

Manylion llawn ein hamserlenni ar gael ar ein gwefan:

www.kmpbus.com

Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan – Dim bysus

Dydd Calan, 1 Ionawr 2006 – Dim bysus

K.M.P.
(LLANBERIS) LTD

Y GLYN, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4HN

01286 870880

www.kmpbus.com

BRYSIWCH!

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i barwb ym mro
Eco'r Wyddfa



oddi wrth

WAVELL'S


Bryn ac
Angela Williams

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed
am brisiau
cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

ffôn: (01286) 674183

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996



- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Cefnogwch ein Hysbysebwr



Cyfarchion Nadolig LLANRUG



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

ARVONIA



- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar gael yma
- Gofynnwch am ein 'Brochure' Gwyliau Newydd

Y Sgwâr, Llanrug

Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvoniaco.uk
Gwefan: www.arvoniaco.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



Pryd i Bawb
Buffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas • Parti

Te Angladdau • Cinio Busnes

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

CERID MACKINNON

Plas Tŷrion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Y DYN CIG

BRYNAFON
LLANRUG



675190 • 673188

Gwasanaeth lleol ar gyfer
Partion•Priodasau

Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur
Cig o ffermydd lleol, Partion rhwng 40 a 400!

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â: John Hughes Jones ar un o'r rhifau uchod

YSGOL BRYNREFAIL

Llwyddiant gyda 'geiriau budron'!!!!!!

Na, nid gwamalu mo hyn, ond yn hytrach llwyddiant grŵp arall o gerddorion o'r Ysgol mewn cystadleuaeth roc genedlaethol. Yn dynn wrth sodlau llwyddiant Derwyddon Dr. Gonzo y llynedd, mae criw o fechgyn Ysgol Brynrefail wedi ennill cystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' a gynhaliwyd yn Galeri yn ddweddar. Mae'r 'Dirty Words' wedi llwyddo i gamu trwy holl rowndiau rhagbrofol y gystadleuaeth, ac yn y rownd derfynol, daethant i'r brig. Aelodau'r grŵp yw Hywel Pitts: gitâr a llais, Sion Foulkes: drymiau, David Thomas: gitâr fas a Daniel Thomas: gitâr.

Y Clwb Cant

Enillwyr Hydref:

£36.50: W. Arfon Evans, Ysgol Brynrefail; £21.90: Gwyn Williams, Llanberis; £14.60: Eirwen Williams, Ysgol Brynrefail.

Enillwyr Tachwedd:

£36.50: C. Hastings, Llanrug; £21.90: P. Larsen, Penisarwaun; £14.60: Eirwen Williams, Ysgol Brynrefail.

Enillwyr Rhagfyr:


£36.50: J.E. a D.M. Hughes, Bethel; £21.90: C. Lynes, Llanrug; £14.60: J. Pierce, Llanddeiniolen.



Ymgyrch Gollwng y Gyllell

Derbyniodd y prifathro lythyr arbennig iawn yn ddiweddar, gan dad bachgen o'r enw Damilola Taylor. Hwyrach eich bod yn cofio i Damilola, yn ddeg oed, gael ei drywannu i farwolaeth gan ddau hogyn ifanc yn eu harddegau, heb reswm yn y byd. Mae tad Damilola wedi ysgrifennu at

ysgolion uwchradd yn gofyn iddynt lunio wal addewid mewn dosbarthiadau ble gall pobl ifanc arwyddo eu bod yn addo peidio cario arf o unrhyw fath. Yn y llun gwelir rhai o ddisgyblion yr Ysgol wrthi'n arwyddo un o'r waliau niferus sydd bellech yn ystafelloedd dysgu Ysgol Brynrefail.



Rhai o fechgyn Blwyddyn 8 yn arwyddo un o waliau'r Ysgol.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

LLONGYFARCHIADAU i Rhodri, Gwern a Lleucu Brookes ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Bentref Llanrug. Cafodd y tri gyntaf am ganu unawd.

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymuniadau gorau a phob bendith i bawb dros yr Wyl ac i'r flwyddyn newydd.

PLAID CYMRU. Beth yw barn Dafydd Wigley ar y Cynulliad yng Nghaerdydd? Sut mae cynlluniau Plaid Cymru yn effeithio ar bentrefi fel Llanrug?

Croeso cynnes iawn i bawb i Gyfarfod Cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa Nos Fercher, Ionawr 17 am 7.30 o'r gloch.

Diwrnod Plant Mewn Angen



Aelodau o Fforwm Disgyblion yr Ysgol fu wrthi'n ddiwyd yn trefnu'r amrywiol weithgareddau.

Dyma ddiwrnod pwysig yn nghalendr yr Ysgol ers blyneddau bellach gan mai dyma un o brif weithgareddau codi arian yr Ysgol. Penderfynodd y fforwm eleni werthu cynnyrch cartref, cynnal


cystadleuaeth 'Bleind Dêr' a chynnal gig yn y neuadd er mwyn cefnogi'r ymgyrch bwysig hon. Llwyddwyd i godi swm anrhydeddus dros ben o £869.31.

Dringwr o Fri

Yn ddiweddar, bu un o ddisgyblion Blwyddyn 12 yn brysur yn cystadlu mewn cystadleuaeth ddringo genedlaethol yn Nhrelews yn ne Cymru. Llwyddodd Oliver Cain i ddod yn drydydd trwy Gymru gyfan yn y gamp! Y mae Oliver bellach yn hen law ar gystadlu ar lwyfannau cenedlaethol. Bydd yn awr yn edrych ymlaen at y gystadleuaeth fawr nesaf, fis Mai.

Llongyfarchiadau gwresog i ti ac edrychwn ymlaen at fwy o'th llwyddiant yn y dyfodol.

Oliver



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth

John Trevor

a Phawb yn



GAREJ HAFOD

LLANRUG

Ffôn:

673372



107 URBAN

- Yswiriant Grŵp 1
- Ffenestri blaen trydan
- Chwaraewr radio/CD
- Soced MP3
- Bagiau aer SMART i'r gyrrwr a'r teithiwr

GWELL BARGEN O FILLTIROEDD

207



- Cloi canolog 'remote'
- Ffenestri blaen trydan
- Chwaraewr Radio/CD
- Bagiau aer SMART i'r gyrrwr a'r teithiwr
- Cyfrifiadur trip

GYRRU ANGHYFFREDIN O DDA

Cefnogwch ein Hysbysebwyd



Cyfarchion Nadolig LLANRUG



Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng



NGHARTREF



Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

- ★ Gwasanaeth 7 diwrnod
- ★ O ddrws i ddrws
- ★ Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug

Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn
Newydd Dda i bawb

**DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD

LLANRUG

Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop

LONDIS

**FFORDD YR ORSAF
LLANRUG**



LONDIS

Ffôn: **672937**

Y gwerth gorau'n lleol

- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Wyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM**
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd dda

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

Cystadleuaeth Sgwennu Drama Fer 2007

Yr wythnos hon caiff
cystadleuaeth sgwennu drama
fer Cymdeithas Ddrama Cymru
ei lansio.

Bwriad y gystadleuaeth yw i
hyrwyddo sgwennu newydd ar
gyfer y llwyfan amatur trwy
gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
Ar gyfer 2007 ceir tri chategori:
drama fer agored; drama ar
gyfer ieuencid 16-25 mlwydd
oed; a'r ddrama orau yn yr iaith
Gymraeg. Yn ychwanegol at y
wobr ariannol fe gyhoeddir y
dramâu buddugol.

Eisoes cyhoeddwyd a
pherfformiwyd gwaith cyn-
enillwyr a hynny o ganlyniad
iddo gael ei hyrwyddo trwy
gyfrwng ein Cynlluniau
Sgwennu Newydd.

Bydd panel o feirniaid, a
ddewisir gan Gymdeithas
Ddrama Cymru, yn darllen ac
yn ystyried y dramâu ac yn
rhannu'r gwobrau. Yn ogystal
bydd y tri enillydd yn derbyn

medal a chyhoeddir y gwaith.
Disgwylir i'r dramâu fod rhwng
20-50 munud o hyd a rhaid
cynnwys o leiaf ddau gymeriad.

Rhoddir gwobrau o £200 ym
mhob categori ac yn
ychwanegol bydd enillydd y
ddrama orau gan un sy'n byw
yng Nghymru yn derbyn
Ysgoloriaeth i gwrs ysgrifennu
ar gyfer y theatr yn Tŷ Newydd.

I dderbyn ffurflenni cais
cysylltwch â Dewi neu Teresa yn
Swyddfa Cymdeithas Ddrama
Cymru, Caerdydd.

ffôn: 029 2045 2200

Ffacs: 029 2045 2277, neu

e-bost: aled.daw@virgin.net.

Dyddiad cau y gystadleuaeth yw
31 Ionawr 2007. Mae'r
gystadleuaeth yn agored i bawb,
hyd yn oed y rheiny sy'n byw y
tu allan i Gymru. Rydym yn
derbyn gweithiau o ledled y
byd.

NODDIR GAN TECHNOCOVER

GORMOD O GARTREFI

**Cangen y Blaid
yn y Waunfawr**

yn galw am ymchwiliad

Mae cangen y Blaid ym
mhentref Waunfawr yn galw am
ymchwiliad i ddatblygiad o 34 o
dai yn y pentref, sydd, yn ôl y
gangen, yn ddatblygiad
afresymol.

Maent yn gofyn i Gyngor
Gwynedd adolygu'r datblygiad
gan nad oes unrhyw ystyriaeth
wedi'i roi i'r angen am dai i'r
henoed a'r anabl, nac yn sicr i'r
angel lleol am dai fforddiadwy.

'Byddai wedi bod yn well,' yn
ôl Rob Jones, Ysgrifennydd y
gangen, 'i anfon holiadur o
gampas yr ardalwyr i'w holi
ynghylch sut fath o dai fyddai
orau ganddyn nhw. Mae'r holl
dai hyn yn awr wedi cael hawl
cynllunio heb ystyried y
posibilrwydd y bydd dros gant o
bobol yn symud i bentref heb
ysgol digon mawr, na siop na
meysydd parcio, heb sôn am yr
anghyfleustra i bentrefwyr dros
gyfnod maith.'

Gofynnwyd i Gadeirydd y
gangen, Eirug Wyn, godi'r
mater yn y Cyngor Cymuned,
lle mae'n aelod, ac mae eisoes
wedi gwneud hynny. Mae'r
Cyngor yn awr wedi llythyru
gyda'r Cyngor Sir, a reolir gan
Blaid Cymru, yn gofyn am
adolygaid llawn o'r sefyllfa.

Dywedodd Eurig Wyn wrth
yr Eco:

*'Mae perygl y byddwn yn setlo
problemau pobol o'r tu allan i'r
pentref, yn hytrach na helpu'r
pentrefwyr eu hunain. Does dim
synnwyr mewn rhuthro i godi tai a
fydd tu hwnt i'r hyn y gall pobol
leol ei fforddio, na chwaith heb roi
unrhyw ystyriaeth i anghenion
henoed sydd angen tai llai, nac
ychwaith i'r anabl a fydd angen tai
wedi eu cynllunio'r arbennig ar eu
cyfer. Hefyd mae rhai o ffyrdd y
pentref yn llawer rhy gul.'*

Ym marn y gangen mae angen
ailfeddwl. Bydd rhai o'r plotiau
adeiladu'n unig, heb sôn am yr
adeiladu, yn costio £90,000. Mae
hynny'n afresynol.'

Llythyr

Cilfynydd
Llanberis

Ymgyrch Plentyn y Nadolig
(Operation Christmas Child)

Diolch yn fawr iawn am yr holl
focus esgidiau yn llawn
anrhegion a anfonwyd ataf eleni
eto ar gyfer Ymgyrch Plentyn y
Nadolig.

Derbyniais 186 o focus
eleni, ac yn ôl a ddeallaf bydd y
rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu
hanfon at blant yn Belarus.

Bob blwyddyn, wrth weld y
pentwr mawr o focus rwy'n

rhyfeddu at haelioni pobl yr
ardal. Diolch yn fawr am yr holl
focus ac am yr arian a
gyfranwyd gyda hwy at y gost
o'u cludo dramor. Diolch hefyd
am gyfraniadau ariannol eraill a
dderbyniwyd. Cafwyd cyfan-
swm o £519.50 at y cludiant, yn
cynnwys yr arian gyda'r bocsus
a'r rhoddion eraill hyn.

Trefnodd amryw o ysgolion y
fro eu hymgyrchoedd eu hunain
eto eleni, wrth gwrs, a gwn fod y
rhai sy'n gyfrifol am yr elusen
yn gwerthfawrogi yr holl
ymdrechion yn fawr iawn.

Diolch eto am eich haelioni.

Yr eiddoch yn gywir

JOHN PRITCHARD

*Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Elaine a Staff*
SIOP DRIN GWALLT



Elaine's

LLANRUG

Ffôn: 672023

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS



(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth*

DYLAN, MIKE A HOLL STAFF
SIOP CHIPS TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG 678282

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb
ym Mharc Cartrefi Gwyliau*

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg
LLANRUG

– lle gwiredwyd breuddwyd
Mae ein llwyddiant wedi parhau eleni eto
gydag ennill
Gwobr Aur Cadwraeth David Bellamy



GRŴP
**TALACRE
BEACH**

Dymunir diolch i
drigolion ardal Eco'r
Wyddfa am eu
cefnogaeth yn ystod
datblygiad y parc.
Buddsoddodd y
perchnogion, fwy na £3.5
miliwn ym Mrynteg.
Yn y broses, crewyd
rhagor na 40 o swyddi.
Hefyd cefnogwyd a
noddwyd nifer o
achosion da
lleol.



**Cyfarchion
Nadolig
LLANRUG**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR
SWYDDFA'R POST




LLANRUG

Ffôn: (01286) 672422

SWYDDFA'R
POST

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth*

Gwynfryn a Valerie Lloyd



**4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 674781

- Defnyddir peiriant sugno i lanhau
- Simneau glân am bris rhesymol

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth*

**WENDY
a
STAFF**

**TAFARN
PENBONT
LLANRUG**

Lle braf a chwmni difyr
dros wyliau'r Nadolig a'r
Flwyddyn Newydd

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth*

Dave, Bobbie a staff y
**GLYNTWROG
LLANRUG**

**Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol**

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl



*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth*

**BRYN AFON
ENGINEERING LTD**
PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Bu Ffair Nadolig lwyddiannus dan nawdd y gangen leol yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri ddydd Llun, 4 Rhagfyr, rhwng 2 a 5 o'r gloch. Er garwed yr hin, daeth llawer o'r pentrefwyr ynghyd i gymdeithasu a mwynhau yr arlwy a chael cyfle i brynu cynnyrch cartref ac anrhegion erbyn y Nadolig. Dymuna'r swyddogion ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

PROFEDIGAETH. Gyda thristwch y deallwyd am ymadawiad disymwth Dafydd Huw Hughes, 12 Trem Eilian, ddydd Mercher, 6 Rhagfyr yn Ysbyty Gwynedd yn 79 mlwydd oed. Bu'r angladd cyhoeddus yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, ac yn dilyn yn y fynwent. Cydymdeimlwn fel ardal yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu profedigaeth, ac yn arbennig ei briod, Blodwen Hughes, sydd wedi bod am gyfnod maith yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd ac ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

JONSI YN Y CABAN. Er y tywydd stormus a phall ar yllinellau telfon y noson cynt, llwyddodd Jonsi, wedi gwaith caled o du'r technegywr, i ddarlledu ei raglen ddwyawr o'r Caban fore Gwener, 8 Rhagfyr.

Cafodd Eluned Davies, y gyfarwyddwraig, gyfle i sôn am y Ganolfan a sefydlwyd i hybu datblygiad busnesau bychain gyda'r nod o ehangu a symud allan maes o law. Mae un ar bymtheg o fusnesau ar y safle ar hyn o bryd. Eglurodd hefyd fel y mae perthynas agos rhwng y pentref a'r gymuned ac fel

mae'r Eglwys Bresbyteraidd yn addoli yn yr Ystafell Gymunedol bob Sul; y Clwb Garddio, Clwb Ffidil, Dosbarth Brodwaith a Sefydliad y Merched yn cynnal eu cyfarfodydd yn yr adeilad. Yma hefyd y cynhelir Cyrsiau Celf Menter Fachwen. Mae'r pentref yn ffodus o gael canolfan mor ymarferol sydd ar agor saith diwrnod yr wythnos.

Rhan boblogaidd o'r adeilad yw y Caffi hardd, sydd yn cynnig bwydydd cartref gan ddefnyddio cynnyrch organig ac yn gyrchfan addas i gynnal nosweithiau adloniadol ynghyd â lluniaeth. Roedd Owen Hughes o Recordiau'r Cob ar y rhaglen yn llawn edmygedd o'r cyfleusterau a'r adnoddau sydd ar gael. Mae ef yn edrych ymlaen i berfformio yn y Noson Adloniadol a Bwffe Nos Calan.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Noswyl Nadolig. Bydd y gwasanaeth boreol ar 24 Rhagfyr i ddathlu Gŵyl y Geni yn cael ei gynnal yn Ystafell Gymunedol y Caban. Mewn cyfnod o ddiystyru arwyddocad Gristnogol y Nadolig, fe estynnir croeso arbennig i unrhyw un i ymuno mewn oedfa dan nawdd yr aelodau, wedi ei threfnu gan Lowri Roberts Williams, gyda lluniaeth i ddilyn.

OEDFAON IONAWR 2007.

- 7: 2.00, Mr Edward Morus Jones, Llandegfan;
- 14: 5.30, Parchg. John Owen, Bethesda;
- 21: 5.30, Parchg. Marcus Wyn Robinson, Bethel;
- 28: 2.00, Parchg. Gwynfor Williams, Caernarfon.



Ffair Nadolig Sefydliad y Merched.



Jonsi yn sgwrsio ag Owen Hughes, Recordiau'r Cob.

DODREFN PERKINS

SÊLY Y GAEAF

Gwasanaeth Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10a.m.
Dydd Iau, Rhagfyr 28

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr
o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd y Cwis Hwyl nos Wener, 17 Tachwedd yn Meifod, Bontnewydd. Cafwyd tri o dimau o gangen Deiniolen a chafwyd 'cwis hwyl' yng ngwir ystyr y gair, yn llenwi bylchau, yn datrys posau ac yn ceisio ateb cwestiynau. Wnaethom ni ddim ennill ond doedden ni ddim ar waelod y rhestr chwaith! Diolch i Eirian Jones am drefnu'r bws. Nos Lun, 20 Tachwedd, cawsom gwmni Geraint Jones, Trefor, a roddodd sgwrs i ni ar 'Cyrn y Diafol'. Soniodd am yr hen fandiau a fyddai'n bod ym mhob

pentref bron erystalwm a gresynai bod y nifer erbyn hyn i lawr i 4 - Nantlle, Trefor, Llanrug a Deiniolen. Cafwyd noson hwyliog iawn yn ei gwmni. Diolchwyd gan Brenda Williams a'r llywydd oedd Buddug Jones.

DYMUNA Mrs Eirian Jones, 11 Stryd Newydd, a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb a fu mor garedig wrthynt yn ystod eu profedigaeth fawr o golli chwaer mor sydyn.

Diolch am yr ymweliadau, y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr i bawb.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
 Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Shell HELIX MOT   Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk AM DDIM Car Service 			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a ll'nau Ceir
Carwash/Vac

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



01286 871521

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA



oddiwrth pawb yn
Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis

Diolch am eich
Cefnogaeth drwy'r
flwyddyn!

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



DMM



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM

LLANBERIS



www.dmmwales.com

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740



Aelodau o Army Cadets Llanberis a gymrodd ran mewn cynllun cenedlaethol sy'n gwobrwyo aelodau o'r Cadets fu'n ymgymryd â chasgliad o ddrws i ddrws at Apêl Popi 2006.

Mae Pwyllgor Lleng Bryndeinig Llanberis yn llongyfarch y Cadets lleol; eu harweinydd, y Smt D.A. Jnes a'r banerwr, Sgt. Alun Griffiths.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch hefyd i bawb a gymrodd ran yng Ngwasanaeth Dydd y Cofio 2006 yn Eglwys Sant Padarn ac wrth y gofologfn.

DYMUNA Mrs Jane Jones, Peris View, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CÔR MEIBION. Dymuna Côr Meibion Dyffryn Peris Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau.

Bydd yr ymarferion yn ailgychwyn ar nos Lun, 8 Ionawr, yn y Mynydd Gwefru (Yr Oriol) am 7.30 o'r gloch.

Mae'r Côr yn awyddus i ychwanegu at eu nifer ac mae croeso i aelodau newydd, a chyn-aelodau, o bob oed i ymuno â'r Côr. ANRHEG NADOLIG CYNNAR. Dyna yw hanes tîm dan 7 Llanberis eleni. Cawsant gymorth arbennig gan dri Siôn Corn o noddwyr. Caed cit newydd, diolch i CJ Installations.

Mae London Garage, Cwm y Glo, wedi prynu cyfarpar hyfforddi a thalu hanner y gost am gotiau cynnes i'r aelodau. Yn amserol iawn mae Robert Vaughan JCB wedi prynu gwarchodfa mochel i'r tîm.


Mae'r cyd-reolwyr, Rodney Collins, Adrian Roberts a Neil Rowlands, yn awyddus i ddiolch ar ran y tîm am y cymorth hael. Mae'r Eco'n clywed fod Tom Collins yn darganfod y rhwyd yn rheolaidd. Gobeithio y bydd tîm oedolion iddynt fod yn rhan ohono ymhen tymhorau. LLONGYFARCHIADA i Alice a John (Beddgelert) ar ddathlu eu priodas Ruddem ar 10 Rhagfyr. Pob dymuniad da oddi wrth Mam, Alan, Angela a'r teulu oll.



Tîm dan 7 Llanberis 2006-07



GIG LLWYDDIANNUS. Ar nos Wener, 17 Tachwedd, cynhaliwyd gig llwyddiannus iawn wedi ei threfnu gan y band 'Dirty Words' o Ysgol Brynrefail, yn Neuadd Hendre, Tal-y-bont. Y bandiau eraill a gymrodd ran ar y noson oedd 'Relentless' o Lanfairpwll a'r 'Wyrlligis' o Fethesda. Roedd yn agos at 20 o bobol yno a rhoddwyd elw'r noson i Plant Mewn Angen. Y 'Dirty Words' ydi Hywel Pitts, David Thomas a Daniel Thomas o Lanberis a Sion Foulkes o Fethel.



y Coleg.



Mae'n anodd credu fod bron i flwyddyn wedi mynd heibio er pan oeddwn yn paratoi i fynd oddi cartref am chwe mis. Ionawr yr 8fed 2006 oedd hi a finau wedi cael fy nerbyn gan Brifysgol Maine yn Ngogledd America i astudio rhan o fy ngradd ac yn awyddus i adael pentref bach Llanber. Am 11 y bore, camu ar fwrdd awyren a 'nghludodd dros dair mil o filltiroedd ar draws Môr yr Iwerydd. Ddeg awr yn ddiweddarach glaniais yn yr UDA - cartref am y chwe mis nesaf.

Er fy mod wedi gwneud gwaith ymchwil ar yr ardal cyn cychwyn, ychydig fuasai wedi gallu fy mharatoi ar gyfer yr oerfel dychrynlyd oedd yn fy nsgwyl, diolch byth fy mod wedi pacio'r 'thyrnals', ar botel dŵr poeth! Ar y llaw arall roedd y croeso a dderbynais yn gynnes iawn.

Am y tri mis nesaf cefais y sialens o geisio byw mewn tymheredd oedd yn gostwng i -20°C, yn ystod y dydd! a chyn ised a -35°C yn y nos!! Er yr oerni, ac yn bell oddi cartref buan iawn y teimlais yn gartrefol. Roedd pawb yn gyfeillgar, yn groesawgar ac wedi gwirioni efo'r acen Gymraeg! Treuliais yr wythnos gyntaf yn dod i

adnabod yr ardal a dod yn gyfarwydd â champws anferthol y brifysgol. Rhaid cyfaddef roeddwn yn teimlo fel petawn yn ôl yn yr ysgol, a roedd yn dipyn o sioc ar ôl tair blynedd! Cynhaliwyd y darlithoedd mewn dosbarthiadau ac nid mewn theatrau darlithio fel ym Mangor, ac roedd gwaith cartref bob nos!

Er bod hyn yn fwy o waith roedd yn well gennyf y ffordd yma o ddysgu - doedd dim amser i laesu dwylo. Ond wrth gwrs roedd digon o amser i gymdeithasu a mynd i weld gemau hoci ia a phêl-fasged, a bwyta, a bwyta a bwyta! Buan iawn y deuthum i arfer ac arferion bwyta yr Americanwyr ond yn colli cinio dydd Sul mam ac roedd yr holl 'fyrgyrs' a chips yn dechrau dweud ar faint fy ngluniau!!!

Buan iawn y daeth y gwanwyn a rhoi terfyn ar yr eira. O fis Ebrill ymlaen doedd ddim angen y thyrnals na'r botel dŵr poeth, ac erbyn ganol mis Mai roeddwn wedi dechrau cynhesu! Ond gyda hynny roedd hi'n amser ffariweli. Roedd fy amser yn y brifysgol ar ben. Ond yn ffodus roedd gennyf fis arall yn y wlad. Felly dim ond un peth amdani - teithio. Ymweld a'r Tŷ Gwyn yn Washington DC, gwyllo morfilod yn Province Town Cape Cod, a mwynhau prysurdeb Boston, Philadelphia, ac, wrth gwrs, Efrog Newydd.

Roedd y profiad yn un bythgofiadwy, ac roedd cael y cyfle i ddysgu a gwerthfawrogi diwylliant y wlad yn fraint ac yn anrhydedd. Roedd yn braf cael dod adref, ond anodd iawn oedd peidio â theimlo hiraeth am fy ffrindiau nôl yn Maine. Dim ond gobeithio y bydd cyfle yn y dyfodol i fynd yn ôl i'r UDA a chael mwynhau unwaith eto. Ond am y tro aros yng Nghymru fach er mwyn cwblhau fy ngradd, ac yna mynd i gwblhau cwrs doethuriaeth.

CARYL WYN WILLIAMS

Y Llyfrgell.



CHWARAEON

LLUDW I'R LLUDW

A ydych wedi aberthu cwsg i ddilyn y gyfres griced gyfredol draw yn Awstralia? Fel pob cyfres, bu cryn gyn-ymadroddi, cryn ddyfalu a chryn feirniadu. A oedd carfan Awstralia yn rhy hen? A oedd awch yr ymwelwyr ddigon tanbaid i ailgydio yn yr wrn chwedlonol?

Amser a ddengys, ond Awstralia yw'r ffefrynnau clir erbyn hyn.

Cefais fy holi'n aml am y gyfres, a chyfeiriais at ddyncwch ac elfen gystadleuol - efallai stwbwrn - y tîm cartref. Nid ydynt yn rhoi ail gyfle i dimau. Amlygwyd hyn yn Adelaide, ble roedd perfformiad diwrnod olaf yr ymwelwyr yn drychinebus. Bydd sgil-effeithiau'r golled - a'r modd y collwyd - yn rhygnu 'mlaen drwy'r gyfres. Dyma'r trobwynt seicolegol yn sicr. Gyda Awstralia 2-0 ar y blaen, gallai'r cyfan orffen ar y WACA yn Perth.

Yn bersonol, credaf mai bowlïo'r ymwelwyr yw'r man gwan. Nid yw Anderson a Giles wedi chwarae digon yn y flwyddyn ddiwethaf. Nid ydynt yn fowlwyr 'bowlïo tîm allan'.

Troellwr negyddol yw Giles. Cymharer y dewin yn y tîm arall - Shane Warne - yn bendant un o gewri'r gêm mewn unrhyw gyfnod. Nid yw Harmison yn ymddangos yn ddigon cryf yn feddyliol ar gyfer yr her. Y mae testun llyfr ynglŷn â'i belen gyntaf yn y gyfres.

Y seren yw Flintoff, ond ni ellir disgwyl i'r cawr yma ysgwyddo'r baich enfawr fel capten, batiwr a'r prif fowliwr ymosodol. Pwy a wŷr, os daw Michael Vaughan yn ôl, efallai fel capten, i ryddhau y pwysau ar Flintoff.

Pan fyddwch yn darllen hyn, rwy'n gobeithio y bydd Panasaer yn ôl yn y tîm prawf. I mi, mae o'n chwa o awyr iach fel person ac fel troellwr. Mae'n fy atgoffa o gyn-droellwr yr India, Bishen Bedi. Ni allai Bedi fatio chwaith, ond roedd ganddo'r ddawn i weithio batiwr allan. Dyma gryfder Monty. Gan ei bod hi'n Alamein - neu'n Alamo - ar yr ymwelwyr, efallai ei bod hi'n amser galw am Monty.

Mae pwysau rhyfeddol ar Duncan Fletcher. Nid ef fydd yr hyfforddwr cyntaf i ddioddef oherwydd ei deyrngarwch i'w

chwaraewyr. Gall ei deyrngarwch fod yn gyfrifol am iddo golli'i swydd. Mae'r cyllyll allan yn barod.

Ar yr ochr bositif teimlaf fod Petersen, Collingwood a Bell wedi datblygu yn chwaraewyr 'prawf' o'r iawn ryw. Dyma'r elfen 'stwbwrn' y cyfeiriais ati. Peidied neb â cheisio newid Petersen - fel cricedwr beth bynnag. Ie, bydd yn methu ar adegau, ond mae'r ddawn ganddo i roddi oriau o adloniant pur i ni. Warne v Petersen - gwyd!

Cyfres o sefydlu a chwalu gyrfaedd yw pob cyfres y Lludw. I mi, 3-1 i Awstralia ac un gêm gyfartal. Cawn weld!

Mwynhewch y Nadolig, a'r gêm ar faes enfawr yr MCG.

DIWEDD CYFNOD

I mi'n bersonol, newyddion chwaraeon tristaf y mis oedd y cyhoeddiad fod clwb Llanberis yn ymddiswyddo o Gynghrair Caernarfon a'r Cylch. Y rheswm swyddogol a roddwyd oedd y methiant i gael olynydd i Raymond Harding fel rheolwr. Rwy'n cofio Ray yn dod i Lanberis fel chwaraewr ac, fel asgellwr dawnus ar y dechrau, sgoriodd nifer o goliau allweddol. Rhoddodd dymhorau o wasanaeth a diolchwn iddo am ei gyfraniad.

Mae Llanberis yn dilyn ffawd

Deiniolen. Dau glwb efo lle anrhydeddus yn hanes y gynghrair arbennig hon. Golyga hyn fod dau gyfle yn llai i fechgyn lleol gael gemau cynghreiriol rheolaidd. Cofiw'n i glwb Waunfawr ddilyn yr un llwybr.

Mae datblygiad sylweddol wedi bod ym mhêl-droed ieuenctid yn ddiweddar. Gwellodd y safon a diolchwn i'r llu gwirfoddolwyr am eu cyfraniad. I gynnal y datblygiad mae'n bwysig bod timau lleol yn bod er mwyn i'r bechgyn eu mynychu wedi diwedd eu cyfnod ieuenctid yn 17 oed.

I mi, trist fuasai meddwl fod cysylltiad Llanberis â'r gynghrair wedi torri'n derfynol. Dyma un o'r cewri, yn enwedig yn y 60'au a'r 70'au. Mae'r atgofion yn lluosog.

Y gêm yn erbyn Llechid. Y teithiau blynyddol i'r Oval ar gyfer y ffinals. Y gamp lawn anhygoel ganol y chwedegau. Brian Corbri yn rhedeg am y 'gwddihw'. Cwil yn oesol ar yr asgell dde a chyfle ar ôl cyfle yn llifo o'r traed dawnus. Lal Jones. Iwan Williams, y pentrefwr yng nghysgod Lal yn arwain y clwb o'r gynghrair 'leol' i lefel Gwynedd ac erbyn hyn yn uwch. Mae bwlch mawr o beidio gweld enw Llanberis yn nhabl Caernarfon and District. Brysied eu dychweliad.

CYFARCHION YR WYL

Cymeraf y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen i chwi i gyd fel darllenwyr ac fel rhai sy'n ymddiddori, hyfforddi, chwarae a gweinyddu yr ystod eang o gampau yn y fro arbennig hon.

Diolch yn arbennig i'r rhai sy'n barod i godi'r ffôn neu sgwenu pwt. Dyma gofnodion ein cyfnod i'r oes a ddêl.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth barwb yn

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Masgot Tîm Cymru



Fu gurodd Catrin Llewelyn Gruffudd o Glwt y Bont, Deiniolen, gystadleuaeth yn ddiweddar i fod yn fasnog yng ngêm ddiwedddara Cymru. Dyma ei hanes:

Yn ddiweddar, cefais y fraint o fod yn fasnog i dîm pêl-droed Cymru yn eu gêm gyfeillgar yn erbyn Liechtenstein yn Wrecsam.

Ar ôl cyrraedd Cae Ras,

Wrecsam, roedd yn rhaid i mi newid a rhoi'r 'cit' ymlaen, a mynd i geg y twnel i ddisgwyl am y timau.

Fe ddaeth pawb allan o'u hystafelloedd newid, ac fe ddaeth Ryan Giggs i sefyll wrth fy ochr, ysgwyd fy llaw a gofyn beth oedd fy enw.

Yna roedd yn amser c erdded allan ar y cae, a sefyll o flaen yr eisteddler er mwyn canu'r anthemau.

Erbyn hyn roeddwn yn reit nerfus am fod yna gymaint o ddynion yn tynnu lluniau a ffilmio, ond pan glywais Hen Wlad Fy Nhadau fe ganais nerth fy mhen.

Yna fe gefais dynnu llun gyda'r tîm ac ynba fe Ies i eistedd gyda Mam, Dadf a'm brawd, Gwion, yn yr eisteddllu i wylïo'r gêm.

Roedd yn brofiad arbennig